

CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

Centre for
Trials Research

Canolfan
Ymchwil Treialon



Adroddiad Blynyddol

2020/21



Ymchwil Iechyd
a Gofal Cymru
Health and Care
Research Wales




Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



CANCER
RESEARCH
UK



**Mae Canolfan Treialon
Ymchwil Prifysgol
Caerdydd yn uned
dreialon clinigol sydd
wedi cofrestru â
Chydweithrediad Ymchwil
Clinigol y DU (UKCRC).**




Cynnwys

Crynodeb gweithredol	2
Rhagair	4
Pecyn gwaith 1: Rheoli ein gwaith	8
Pecyn gwaith 2: Gweithio gyda grwpiau eraill	11
Pecyn gwaith 3: Datblygu astudiaethau newydd	16
Pecyn gwaith 4: Goruchwyllo astudiaethau a ariennir	21
Pecyn gwaith 5: Sicrhau datblygiad methodolegol a phroffesiynol	28
Pecyn gwaith 6: Cefnogi arloesedd gan y GIG ac ymarfer gofal cymdeithasol	32
Casgliad	38
Edrych tuag at y dyfodol	39

Geirfa

CI	Prif Ymchwilydd
COPD	Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint
CTR	Canolfan ar gyfer Ymchwil Treialon
CTU	Uned Treialon Clinigol
CU	Prifysgol Caerdydd
DCW	Gweithiwr gofal cartref
HTA	Asesiad Technoleg Iechyd
NIHR	Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd
PHR	Ymchwil Iechyd y Cyhoedd
PI&E	Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd
RCT	Treial Hapsamplu Rheolyddedig
RDCS	Gwasanaeth Dylunio ac Chynnal Ymchwil
UKRI	Ymchwil ac Arloesedd y DU



Crynodeb gweithredol

Y llynedd oedd blwyddyn gyntaf y cyfnod cyllido tair blynedd newydd a gomisiynodd Llywodraeth Cymru trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ac ail flwyddyn cyfnod cyllido pum mlynedd Ymchwil Canser y DU.

Gwelwyd ymdrechion arloesi mawr ar draws ein holl weithgareddau dros y flwyddyn i'n galluogi i ymateb i'r heriau niferus a wynebom yn ystod y pandemig. Uchafbwynt ein blwyddyn oedd digwyddiad ar-lein y Ganolfan Treialon Ymchwil (CTR) a gyflwynwyd gan Vaughan Gething AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac a fynychwyd gan 158 o'n partneriaid o Gymru ac ar draws y DU.

Fel rhan o'n hymdrechion parhaus i gyflawni cyrhaeddiad eang ar draws seilwaith a ariennir gan Gymru, rydym wedi blaenoriaethu ymchwil brys i iechyd y cyhoedd, gan gynnwys cefnogi astudiaethau brechlyn. Ar yr un pryd, rydym wedi gweithio i sicrhau bod astudiaethau a ariennir eisoes (er enghraifft TRUFFLE a LEAP-MS) yn gallu agor, o ystyried y cyfyngiadau a gyflwynwyd gan y pandemig. Gallwch ddarllen am rywfaint o'n hymchwil cydweithredol, blaenllaw a pherthnasol i Covid-19 (sef Pan-Covid a CABS-Covid), sydd eisoes yn cyfrannu at yr ymateb byd-eang i'r pandemig.

Mae ein hymwneud â'n hariannwyr, Ymchwil Canser y DU, wedi canolbwyntio ar ein cyfarfodydd cyfarwyddo a gweithredol rheolaidd, rhannu arfer orau a chefnogi treialon clinigol canser yn ystod y pandemig. Rydym wedi cymryd rhan mewn cyfres o weminarau sy'n mynd i'r afael ag ystod o bynciau o ddiddordeb cyffredin ac rydym wedi arwain cyfres o weminarau "blasu" ynghylch methodoleg ar gyfer ymchwil sy'n gysylltiedig â radiotherapi. Ar wahân, rydym wedi cynorthwyo Ymchwil Canser y DU â darn sylweddol o waith yn edrych ar amseroedd sefydlu ar gyfer treialon clinigol ac rydym bellach yn cynorthwyo ag arwain strategaeth ymgysylltu â'r diwydiant ar gyfer treialon clinigol canser, a fydd yn cyd-fynd â gwaith yn y Ganolfan Treialon Ymchwil.

Mae 88 o gyhoeddiadau a adolygwyd gan gymheiriaid dros y flwyddyn ddiwethaf yn adlewyrchu ein hymchwil o ansawdd uchel. Yn sail i'n rhaglen ymchwil y mae cynnwys y cyhoedd wrth ddylunio, cynnal a lledaenu ymchwil, ac fe'i galluogwyd ymhellach gan ein Canolfan Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu â Nhw, sydd bellach wedi'i sefydlu'n llawn a'i hymgorffori yn yr holl waith a wnawn. Gallwch ddarllen mwy am waith y Ganolfan hon ac am ein ffocws ar gynhwysiant mewn ymchwil trwy'r prosiect Trafod Treialon.

Rydym wedi dathlu llwyddiant rhagorol gyda dyfarniadau grant cydweithredol, gan weithio gydag ymchwilwyr yn y GIG, gofal cymdeithasol, seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a diwydiant ledled Cymru, gweddill y DU ac yn rhyngwladol. Mae rheoli adnoddau'n effeithiol a'n llwyddiant wrth gadw a datblygu ein 161 aelod staff ymchwil a phroffesiynol medrus wedi'n helpu i sicrhau £22,703,050 o gyllid gan arianwyr cenedlaethol a rhyngwladol (cyfanswm o 39 o ddyfarniadau mawr ym meysydd thematig strategol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac Ymchwil Canser y DU dros y cyfnod cyllid cyfredol).

Rydym wedi cydweithredu ag unedau treialon clinigol eraill sydd wedi'u cofrestru gydag UKCRC ledled y DU i lywio strategaethau sy'n dod i'r amlwg i alluogi sefydlu a chyflwyno treialon o bell. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Gwasanaeth Dylunio a Chynnal Ymchwil (RDCS) De-ddwyrain Cymru wedi cynnig cefnogaeth fethodolegol i'n partneriaid yn y GIG a gofal cymdeithasol, gan helpu ymarferwyr i ddatblygu gwerthusiadau o'u hymatebion gwasanaeth i'r pandemig ochr yn ochr â chefnogi 70 o geisiadau cymorth ac 16 o geisiadau grant gan y GIG a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.

Mewn cydweithrediad â Chanolfan Ymchwil Canser Cymru, rydym wedi chwilio am wybodaeth am rwystrau rhag bod staff yn y GIG yn dod yn arweinwyr mewn ymchwil glinigol canser ac, mewn partneriaeth â'r GIG, rydym yn symud ymlaen â nifer o fentrau i ymgysylltu a chefnogi unigolion i ddatblygu ac arwain syniadau am astudiaethau yn y dyfodol.

Rydym yn falch iawn o'n ffocws ar ddatblygu ymchwilwyr o fewn y Ganolfan Treialon Ymchwil ac yn ehangach yn y GIG ac mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae staff y Ganolfan Treialon Ymchwil wedi cael eu dyrchafu a'u hailraddio, dyfarnwyd PhD trwy weithiau cyhoeddedig i ddau ohonynt a llwyddodd un i ennill dyfarniad cymrodoriaeth uwch y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Iechyd (NIHR). Y tu allan i'r Ganolfan Treialon Ymchwil, rydym yn darparu mentora academiaidd i bedwar o'r Dyfarniadau Amser Ymchwil y GIG a ddyfarnwyd yn ddiweddar gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Hefyd, rydym yn gartref i Gymrawd Treialon Clinigol amser llawn Ymchwil Canser y DU ac yn goruchwyllo treialon clinigol ar gyfer Uwch Gymrawd Clinigol NIHR.

Diolch i chi am roi o'ch amser i ddarllen am ein gwaith. Rydym wedi bod mor hy â defnyddio rhai lluniau cyn y pandemig yn yr adroddiad hwn i'n hatgoffa ni oll sut beth oedd gweithgarwch y Ganolfan Treialon Ymchwil. Hoffem gydnabod ein harianwyr, ein partneriaid ymchwil, ein staff ac, yn fwy na dim, y rhai sydd wedi cymryd rhan yn ein hastudiaethau ymchwil, na fyddai'r gwaith hwn yn bosibl hebddynt.

Yr Athro Monica Busse

Cyfarwyddwr, Adran y Meddwl,
yr Ymennydd a Niwrowyddorau

Yr Athro Mike Robling


Cyfarwyddwr, Adran Iechyd y Boblogaeth

Yr Athro Kerry Hood

Cyfarwyddwr, Yr Adran Heintiau,
Llid ac Imiwnedd

Yr Athro Richard Adams

Cyfarwyddwr, Yr Adran Ganser



Rhagair

Cenhadaeth a nodau strategol

Mae'r Ganolfan Treialon Ymchwil yn uned treialon clinigol sydd wedi cofrestru â Chydweithrediad Ymchwil Clinigol y DU (UKCRC), sydd wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd. Canolfan bwrpasol yw hon ar gyfer mynd i'r afael â chlefydau a phryderon iechyd mawr ein hamser. Rydym yn gweithio gydag ymchwilwyr i gynhyrchu tystiolaeth ymchwil ar gyfer arweinwyr polisi, comisiynwyr gwasanaethau ac ymarferwyr ynghylch triniaethau a gwasanaethau a allai wella iechyd a lles y cyhoedd.

Partneriaid a buddiolwyr allweddol y rhaglen

Mae'r Ganolfan yn derbyn cyllid seilwaith gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac Ymchwil Canser y DU, yn ogystal â chan Prifysgol Caerdydd, sy'n gartref i ni. Mae'r cyllid hwn yn caniatáu i ni fuddsoddi mewn gweithgareddau craidd sy'n ofynion hanfodol ar gyfer dylunio a goruchwyllo astudiaethau o ansawdd uchel, ac ennill cyllid allanol er mwyn gallu eu cynnal, eu dadansoddi a'u cyhoeddi. Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith yn cynnwys ymchwilwyr allanol yn gwneud gwaith ymchwil sylfaenol mewn iechyd neu ofal cymdeithasol (neu'r ddau). Mae ystod y buddiolwyr posibl yn eang, gan adlewyrchu'r amrywiaeth o astudiaethau ac ymchwilwyr rydym yn gweithio mewn partneriaeth â nhw. Bydd y rhain yn cynnwys cleifion, defnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol, aelodau'r cyhoedd, darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a llunwyr polisiâu iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y buddiolwyr hyn yng Nghymru, gweddill y DU ac mewn gwledydd eraill y tu hwnt i'r DU. Mae gan y Ganolfan hanes hirsefydlog o ran hyrwyddo ymchwil gynhwysol a chynhyrchu tystiolaeth i gefnogi gofal grwpiau nad ydynt yn draddodiadol wedi'u gwasanaethu'n ddigonol.

Pwy ydy pwy

Cyfarwyddwr y Ganolfan Treialon Ymchwil (a Chyfarwyddwr yr Adran Heintiau, Llid ac Imiwnedd) yw'r Athro Kerry Hood. Caiff ei chynorthwyo gan dîm uwch-reolwyr gan gynnwys

yr Athro Mike Robling (Adran Iechyd y Boblogaeth), yr Athro Monica Busse (Adran y Meddwl, yr Ymennydd a Niwrowyddorau), yr Athro Richard Adams (yr Adran Ganser), yr Athro Adrian Mander (Ystadegau) a Dr Sue Channon (y Gwasanaeth Dylunio a Chynnal Ymchwil).

Sut rydym yn gweithio

Mae ein hymchwilwyr a'n staff proffesiynol yn gweithio ar draws ein pedair adran ac o fewn timau trawsbynciol (gan gynnwys Gwasanaethau Gwybodaeth, Sicrhau Ansawdd a Materion Rheoleiddio a Gwasanaethau Proffesiynol). Mae ein portffolio ymchwil cyfredol yn cynnwys gwerthusiadau o gyffuriau ac ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth, astudio mecanweithiau clefydau a thriniaethau, astudiaethau carfannau a threialon sy'n llywio polisi ac arfer iechyd a gofal cymdeithasol. Y gweithgareddau sydd wedi'u hymgorffori ar draws y meysydd gwaith hyn yw cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd, agweddau ar ofal cymdeithasol, ymgysylltu a chydweithio â meysydd masnachol/diwydiant, ymgysylltu a chydweithio proffesiynol â'r GIG, ymgysylltu â seilwaith ymchwil a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a chyfathrebu, cyhoeddu'rwydd a throsglwyddo gwybodaeth.

Ein cynllun gwaith

Rydym ni'n rhoi pwyslais parhaus ar ddatblygu arferion gwaith a staff arbenigol i sicrhau ein bod yn cyrraedd safonau ymchwil uchel ar draws ein portffolio. Rydym yn dylunio astudiaethau newydd ac yn ennill cyllid i'w gwireddu ar y cyd ag ymchwilwyr o sefydliadau eraill ledled Cymru a thu hwnt. Cynhelir ein holl astudiaethau a ariennir i safonau ansawdd uchel sy'n cynhyrchu canlyniadau fydd yn gwneud gwahaniaeth i'r cyhoedd, ac rydym yn ymdrechu i ddatblygu ffyrdd newydd o ateb cwestiynau clinigol pwysig a chynnal gweithlu dynamig a phroffesiynol. Ynghyd â hyn, rydym yn cefnogi staff yn y GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru i ddatblygu eu hymchwil eu hunain i fynd i'r afael â chwestiynau pwysig ynghylch gofal cleifion a'r cyhoedd. Yma, rydym yn arddangos ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf yn ein holl adrannau o fewn y Ganolfan Treialon Ymchwil.



Cyfarwyddwyr y Ganolfan Treialon Ymchwil



Yr Athro Kerry Hood,
Cyfarwyddwr y Ganolfan Treialon
Ymchwil a'r Adran Heintiau,
Llid ac Imiwnedd



Dr Sue Channon,
Cyfarwyddwr Gwasanaeth
Dylunio a Chynnal Ymchwil
De-ddwyrain Cymru



Yr Athro Mike Robling,
Cyfarwyddwr Adran
Iechyd y Boblogaeth



Yr Athro Monica Busse,
Cyfarwyddwr Adran y
Meddwl, yr Ymennydd
a Niwrowyddorau




Yr Athro Richard Adams,
Cyfarwyddwr yr
Adran Ganser



Yr Athro Adrian Mander,
Cyfarwyddwr Ystadegau
Meddygol

Adrannau'r Ganolfan Treialon Ymchwil



Heintiau, llid ac imiwnedd



Y meddwl, yr ymennydd, a niwrowyddorau



Canser



Iechyd y boblogaeth

Pecynnau Gwaith

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n cefnogi tair o'n hadrannau, ac mae Ymchwil Canser y DU yn cefnogi'r Adran Ganser; mae'r ddau ariannwr yn darparu cyllid craidd i dimau sy'n gweithio ar draws pob adran. Er mwyn adrodd i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, rydym yn trefnu ein gwaith ar draws chwe phecyn gwaith yn y modd canlynol.

PECYN GWAITH 1:

Rheoli ein gwaith

PECYN GWAITH 2:

Cydweithio â grwpiau eraill

PECYN GWAITH 3:

Datblygu astudiaethau newydd

PECYN GWAITH 4:

Goruchwylio astudiaethau a ariennir

PECYN GWAITH 5:

Sicrhau datblygiad methodolegol a phroffesiynol

PECYN GWAITH 6:

Cefnogi arloesedd gan y GIG ac ymarfer gofal cymdeithasol

Trwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r graffeg hyn yn amlygu ac yn cyflwyno pob adran i chi:

Themâu trawsbynciol

Ar ddechrau pob pecyn gwaith trwy gydol yr adroddiad, gwelwch eiconau sy'n cynrychioli ein chwe thema drawsbynciol isod. Nod hyn yw amlygu'r ffordd y mae ein gwaith wedi cael effaith ehangach ar draws y GIG, diwydiant, gofal cymdeithasol, o fewn Llywodraeth Cymru ac ar gyfer y cyhoedd. Rydym yn gobeithio y bydd hon yn ffordd syml a hawdd o lywio'r adroddiad.



Cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd



Gofal cymdeithasol



Ymgysylltu a chydweithio â'r GIG




Ymgysylltu a chydweithio â meysydd masnachol/diwydiant



Ymgysylltu â seilwaith ymchwil a ariennir gan Lywodraeth Cymru



Cyfathrebu, cyhoeddu a throsglwyddo gwybodaeth



Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys enghreifftiau o ymchwil Covid-19 allweddol yr ydym wedi bod yn ei chefnogi. Er mwyn ei gwneud hi'n hawdd ei adnabod trwy gydol yr adroddiad, mae dynodwr Covid yn nodi'r gweithgaredd hwnnw.

Cyfnod Adrodd


Metrigau Craidd: 2020/2021

**Gwobr seilwaith
Ymchwil Iechyd
a Gofal Cymru
i'r grŵp**

Cyllid uniongyrchol
a ddyfarnwyd
£823,571



Swyddi a grëwyd
drwy gyllid
uniongyrchol



Grantiau a enillwyd yn ystod y cyfnod adrodd

Grantiau a enillwyd	Dan arweiniad y grŵp	Grŵp yn cydweithio
Nifer	18	21
Gwerth	£4,604,838	£18,098,212
Cyllid i Gymru	£3,897,616	£12,915,619
Cyllid i grŵp	£3,363,407	£1,718,791
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer Cymru	38.78	148.58
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer grŵp	38.78	19.06



Nifer y cyhoeddiadau



Nifer y digwyddiadau
ymgysylltu â'r cyhoedd



Nifer y cyfleoedd i'r
cyhoedd gymryd rhan

Metrigau'r Uned Treialon Clinigol



39

Nifer yr
astudiaethau
a ddyfarnwyd



29

Nifer yr astudiaethau
dan arweiniad Prif
Ymchwilwyr Cymru



18,129

Cyfanswm nifer
y cyfranogwyr a
recriwtiwyd



14.25

% y cyfranogwyr
a recriwtiwyd
o Gymru

PECYN GWAITH 1:

Rheoli ein gwaith

Recriwtio a chefnogi staff,
a datblygu arferion gwaith
i sicrhau ein bod yn bodloni
safonau uchel ar gyfer
gwaith ymchwil



Digwyddiad Rhithwir i Randdeiliaid y Ganolfan Treialon Ymchwil

Trefnwyd Digwyddiad Rhithwir i Randdeiliaid y Ganolfan Treialon Ymchwil ym mis Medi 2020 i ddathlu'r ailgomisiynu ac i ddathlu pen-blwydd y Ganolfan yn 5 oed.

Roedd y diwrnod yn cynnwys cyfres o gyflwyniadau a thrafodaethau panel ar 4 thema graidd: cynnwys mewn treialon, dyluniadau newydd; dylunio a darparu treialon yn effeithlon; a data presennol ac arferol. Lansiodd y diwrnod gan yr Athro Karen Holford, Dirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd, a Vaughan Gething AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Roedd y cynrychiolwyr yn cynnwys aelodau'r cyhoedd, cynrychiolwyr lleyg, cyllidwyr, Llywodraeth Cymru, cleifion a gofalwyr, ymchwilwyr o'r tu allan i'r Ganolfan, gweithwyr iechyd proffesiynol, methodolegwyr ac aelodau staff Prifysgol Caerdydd o'r tu allan i'r Ganolfan.

Roedd yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan gan gynrychiolwyr, gan gynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid a'r cyhoedd a ddywedodd ei fod yn ddiddorol ac yn addysgiadol.



Gwylwch bob sesiwn yma.



Frank Atherton,
Prif Swyddog Meddygol Cymru

Adborth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda:

“Mwynheais y sesiwn ar gynhwysiant yn fawr, rwy'n weithiwr proffesiynol EDI ac nid wyf yn gweithio yn y sector Treialon, roedd clywed am yr heriau yn ddiddorol iawn. Casglais wybodaeth ddefnyddiol y gallaf ei defnyddio wrth gwblhau Asesiadau Effaith Cydraddoldeb.”

Sylwadau dethol gan gynrychiolwyr:

“Hoffwn ddweud diolch yn fawr i'r holl siaradwyr, yn enwedig Kerry Hood, am ddiwrnod mor addysgiadol a diddorol.”

“Yn fy marn i, roedd yr holl sesiynau'n ddiddorol ac yn cynnig gwahanol wybodaeth ac agweddau ar ymchwil, ac wedi fy ngalluogi i ddeall y gwahanol rolau ac ymchwil a wneir yn y Ganolfan Treialon Ymchwil.”

“Cynwysoldeb. Llawer o syniadau i feddwl amdanynt, o ran cynwysoldeb cyfranogwyr a hefyd am PPI sy'n cymryd rhan mewn treialon.”

“Dyluniad Gwreiddiol. Teimlaf fy mod i'n deall y cysyniad hwn yn well o lawer nawr.”

“Roedd y sesiwn Cynhwysiant yn ddifyr ac yn ddiddorol iawn, gyda llawer o negeseuon yn dod ohoni i'w defnyddio mewn ymchwil yn y dyfodol. Fe wnes i fwynhau'r sgwrs ar astudiaeth POOL yn arbennig hefyd - mae'n swnio'n ddiddorol iawn a byddai gen i ddiddordeb yn y canlyniadau.”



Vaughan Gething AC,
Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol



Canolfan Ymgysylltu â'r Cyhoedd a'u Cynnwys

Mae Canolfan Ymgysylltu â'r Cyhoedd a'u Cynnwys y Ganolfan Treialon Ymchwil yn grŵp o Bartneriaid Ymchwil (aelodau o'r cyhoedd) a Staff y Ganolfan sy'n cwrdd bob deufis. Mae'r Hwb yn darparu ffocws canolog a goruchwyliaeth ar gyfer ymrwymiad y Ganolfan i gynnwys aelodau'r cyhoedd mewn ymchwil. Mae'n caniatáu i ni ddefnyddio dull Canolfan gyfan o ran gweithio gyda'r cyhoedd, er mwyn codi ei broffil, rhannu syniadau da a chefnogi arloesedd. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r tîm ymgysylltu â'r cyhoedd a'u cynnwys yn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a Hyrwyddwyr Ymgysylltu â'r Cyhoedd a'u Cynnwys yr Ysgol Meddygaeth.

Ein gweledigaeth yw adeiladu a chefnogi cymuned o Bartneriaid Ymchwil sy'n gweithio gyda'r Ganolfan Treialon Ymchwil naill ai ar astudiaethau unigol neu ar draws gweithgareddau sefydliadol ehangach. Bydd polisiau ac arferion y ganolfan yn gwella cyfleoedd i ddenu partneriaid newydd a phresennol, i gynnig cefnogaeth a datblygiad yn eu rôl ac i wneud iddynt deimlo'n rhan o gymuned eang ar draws y Ganolfan. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar gynhyrchu canllaw rhagarweiniol i bartneriaid sy'n ymuno â'r Ganolfan. Y nod yw sicrhau dull ymsefydlu cyson trwy ddarparu gwybodaeth am daliadau, hyfforddiant a'r rolau posibl sydd ar gael.

Rydym hefyd yn awyddus i annog canlyniadau pob astudiaeth i gael eu lledaenu mor eglur, eang a thryloyw â phosibl. Un agwedd ar hyn yw sut rydym ni'n adrodd canlyniadau'r astudiaeth yn ôl i gyfranogwyr.


Er mwyn cynnig persbectif cyhoeddus ar weithgareddau ehangach y Ganolfan Treialon Ymchwil, mae dau o'n partneriaid ymchwil yn cyfrannu at gyfarfodydd Pwyllgor Gweithredol y Ganolfan, y Grŵp Mabwysiadu Astudio a Grŵp Cyngori Strategol y Ganolfan.



PECYN GWAITH 2:

Gweithio gyda grwpiau eraill

Cydweithio ag ymchwilwyr
o sefydliadau eraill ledled
Cymru a thu hwnt



Data Arferol


Thema allweddol ar draws llawer o'n hastudiaethau yw'r defnydd o ddata gweinyddol a gesglir fel mater o drefn. Er y byddai defnyddio data o'r fath wedi bod yn brin ychydig flynyddoedd yn ôl, mae ei ddefnydd wedi dod yn fwy cyffredin. I lawer o'n hastudiaethau, gallai defnyddio data presennol gynnig enillion da ar fuddsoddiad i'r ariannwr. Mewn astudiaethau arsylwadol yn ogystal ag mewn rhai treialon, mae maint setiau data arferol hefyd yn golygu y gallwn gyflawni manwl gywirdeb sy'n ein galluogi i ateb cwestiynau sy'n annhebygol o fod wedi bod yn bosibl gan ddefnyddio dulliau eraill. Mae dwy astudiaeth y Ganolfan Treialon Ymchwil yn Adran Iechyd y Boblogaeth yn darparu enghreifftiau da o sut rydym yn defnyddio data o'r fath - astudiaeth OSCAR a'r Astudiaeth Gweithwyr Cymdeithasol mewn Ysgolion.

OSCAR

Canfod effaith COVID-19 ar iechyd gweithwyr gofal cartref yng Nghymru: datblygu model ar gyfer cynllunio gwasanaeth yn y Deyrnas Unedig a chefnogi gofalwyr

Prif Ymchwilydd: Yr Athro Mike Robling a Dr Rebecca Cannings-John, Canolfan Treialon Ymchwil

Ariannwr: Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU, fel rhan o'i alwad am ymchwil i archwilio effaith COVID-19



Mae OSCAR yn meintioli effaith Covid-19 ar weithwyr gofal cartref. Yn 2020 awgrymodd arwyddion cynnar o effaith Covid-19 ar weithwyr gofal cymdeithasol, gan gynnwys gweithwyr gofal cartref, risg uwch o ddeilliannau mwy difrifol ond mae'r darlun yn parhau i fod yn aneglur. Yng Nghymru, mae pob gweithiwr gofal cartref wedi'i gofrestru gyda'r corff rheoleiddio, Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd data cofrestru dienw sy'n gysylltiedig â data o labordai, practis cyffredinol, ysbytai, a GIG 111 ac a gedwir yng Nghronfa Ddata SAIL yn galluogi meintioli cyfraddau haint Covid-19, ymgynghoriadau a derbyniadau i'r ysbyty, yn fanwl gywir. Bydd hyn yn cynnwys cymharu data cyn ac ar ôl i'r pandemig ddechrau. Bydd canlyniadau'r astudiaeth yn hanfodol i lywio

ymateb Llywodraethau Cymru a'r DU i'r pandemig a chefnogaeth tymor hwy i weithwyr gofal cartref. Mae'r astudiaeth yn cael ei chynnal mewn partneriaeth â chydweithwyr yn SAIL, Prifysgol Abertawe ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Astudiaeth Gweithwyr Cymdeithasol mewn Ysgolion


Prif Ymchwilydd: David Westlake, Cymrawd Ymchwil, CASCADE

Ariannwr: What Works for Children's Social Care

Ar gyfer astudiaeth arall dan arweiniad David Westlake yn CASCADE, sef yr astudiaeth Gweithwyr Cymdeithasol mewn Ysgolion (SWIS), gellir dadlau na fyddai'r astudiaeth hon fyth wedi bod yn bosibl heb ddata arferol. Mae'r astudiaeth hon yn gwerthuso effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd gosod gweithwyr cymdeithasol mewn ysgolion, yn achos ymholiadau amddiffyn plant. Mae'r astudiaeth yn defnyddio data a gesglir yn rheolaidd gan awdurdodau lleol. Mae canlyniadau eilaidd yn cynnwys nifer y diwrnodau mewn gofal a chyflawniad addysgol (a asesir trwy gysylltiadau ychwanegol â Chronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion). Mae tîm y Ganolfan Treialon Ymchwil eisoes wedi dewis 280 o ysgolion ar hap i dderbyn gweithiwr cymdeithasol ai peidio ac wedi sefydlu cytundebau rhannu data gydag awdurdodau lleol.

Datblygu Ymchwilydd Nyrso ac Iechyd Perthynol

Rydym yn cydnabod gwerth gweithlu amrywiol yn broffesiynol ac yn annog datblygiad proffesiynol a dilyniant i ymchwil glinigol trwy lwybrau amgen. Yma, rydym wedi tynnu sylw at rai o lwyddiannau ein staff a rhai o'n cydweithwyr dros y flwyddyn ddiwethaf.



Dr Julie Latchem-Hastings

Dechreuodd Julie yn y Ganolfan Treialon Ymchwil fel ffisiotherapydd ymchwil dair blynedd yn ôl. Ar ôl cwblhau ei PhD mewn Cymdeithaseg yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd yn 2017, cyfunodd Julie ei chefnidir fel ffisiotherapydd niwrolegol gweithredol ag arbenigedd dulliau ymchwil cymdeithaseg a gwyddorau cymdeithasol i sefydlu astudiaeth LEAP-MS. Arweiniodd yr astudiaeth 3 blynedd hon, a ariennir gan y Multiple Sclerosis Society, at ddatblygu a phrofi ymyrraeth gyfunol, dan arweiniad ffisiotherapi, i gynorthwyo pobl â sglerosis ymledol cynyddol i fod mor weithgar yn gorfforol â phosibl.

Trwy weithio ar LEAP-MS, bu'n bosibl i Julie adeiladu ar ei harbenigedd wrth ddylunio ymchwil gyda phoblogaethau nad oes ymchwil ddigonol iddynt, ac ar eu cyfer. A hithau'n mynd i'r afael â bylchau ymchwil a ddarganfu yn ystod ei gwaith doethurol, llwyddodd Julie i sicrhau Cymrodoriaeth Ôl-ddoethuriaeth Gofal Cymdeithasol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn 2019. Mae ei hastudiaeth dan y gymrodoriaeth, 'FEAST', yn archwilio rôl bwyd yng ngofal ac adsefydlu oedolion iau â chyflyrau niwrolegol mewn gofal tymor hir.



Yn 2020, llwyddodd Julie hefyd i sicrhau Dyfarniad Ymgysylltu Ymddiriedolaeth Wellcome ar gyfer prosiect 'Get CreActive', prosiect y mae hi wedi bod yn ei redeg dros y flwyddyn ddiwethaf. Trwy'r cyllid hwn gan ISSF a defnyddio'i diddordebau mewn dulliau creadigol ac ymgysylltu â'r cyhoedd, mae Julie wedi dwyn ynghyd grŵp o 20 o ferched sydd, trwy drafodaethau wedi'u hwyluso ac ymgysylltu â chyfres o weithgareddau creadigol, wedi archwilio realiti byw gyda dysplasia'r glun ac wedi nodi blaenoriaethau allweddol ymchwil at y dyfodol. Daw'r prosiect i ben yr haf hwn gyda chynlluniau i adael adnoddau digidol sy'n olrhain profiad y grŵp ar ei ôl, gyda'r nod o gefnogi eraill â dysplasia'r glun.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, llwyddodd Julie yn ei chais i gael ei hailraddio'n Ffisiotherapydd Ymchwil Gradd 7.

Dr Victoria Shepherd


Ymunodd Victoria fel nyrs ymchwil 8 mlynedd yn ôl i gefnogi treial clinigol a gynhaliwyd mewn cartrefi gofal, lle y gall fod heriau moesegol ac ymarferol wrth recriwtio pobl hŷn bregus, llawer ohonynt â nam ar eu gallu. Yn 2016, dyfarnwyd Cymrodoriaeth Ymchwil Doethurol NIHR, wedi'i hariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, iddi i ddatblygu ymyrraeth gymhleth i helpu cynnwys oedolion â diffyg gallu mewn ymchwil (Astudiaeth DECISION). Mae'r ymyrraeth yn offeryn cefnogi penderfyniadau i deuluoedd sy'n gwneud penderfyniadau am ymchwil ar ran rhywun sy'n methu â chydysynio.



Ar ôl cwblhau ei PhD ym mis Ionawr 2020, dyfarnwyd Gwobr Atgyfnerthu ISSF Ymddiriedolaeth Wellcome iddi i barhau â'i hymchwil trwy Astudiaeth DECISION 2. Fe wnaeth hyn ei galluogi i wella'r offeryn penderfynu, trwy gyfnewid ag aelodau teulu pobl â chyflyrau fel dementia a datblygu ffyrdd o werthuso'r math hwn o ymyrraeth (COmNIDeR).

Rhoddodd cyllid ISSF y cyfle a'r sgiliau iddi barhau â'r maes ymchwil hwn ac amser i ddatblygu ymchwil ddilynol a chyhoeddi canlyniadau o'i PhD. Mae hi wedi lledaenu'r negeseuon allweddol o'r ymchwil hon ac wedi curadu tudalen ymchwil ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru.

Arweiniodd cyllid ISSF a chefnogaeth y Ganolfan Treialon Ymchwil at ddyfarnu Cymrodoriaeth Uwch NIHR 4 blynedd iddi, wedi'i ariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ar ddiwedd 2020.



Sue Delport

Mae Sue yn gyd-Brif Ymchwilydd gyda Dr Rachel McNamara ar SenITA.

Sefydlodd glinig Therapi Galwedigaethol yn 2013 ym Mhrifysgol Caerdydd, gan greu'r cyfle i ymchwilio i effeithiolrwydd ymyrraeth i blant ag anawsterau prosesu datblygiadol a synhwyrdd. Hwyluswyd ymchwil aml-ysgol gan yr Athro Monica Busse, gyda dyfarniad trawsddisgyblaethol Wellcome Trust-ISSF ar gyfer astudiaeth beilot. Fe wnaeth yr astudiaeth ymyrraeth fechan hon ei pharatoi ar gyfer y cam nesaf mewn ymchwil.

Fe wnaeth seminar a gynhaliwyd gan y Ganolfan Treialon Ymchwil yn cynnig cefnogaeth ac yn gwahodd cydweithredu ag ymarfer, hwyluso'r gwaith o archwilio syniad ymchwil gyda phartneriaid ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, yn ymchwilio i effeithiolrwydd gofal arferol ar gyfer anawsterau prosesu synhwyrdd. Ar yr un pryd, lanswyd galwad y Rhaglen Asesiad Technoleg Iechyd y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Iechyd a gomisiynwyd i ymchwilio i'r dystiolaeth ar gyfer therapi integreiddio synhwyrdd i blant ag awtistiaeth. Ar ôl gweithio gyda'r Athro Busse ar astudiaeth beilot Ymddiriedolaeth Wellcome, gofynnwyd i'r Ganolfan Treialon Ymchwil gefnogi'r cais.

Cytunodd y Ganolfan Treialon Ymchwil i fabwysiadu'r astudiaeth a gweithio mewn partneriaeth a defnyddio model cyd-CI (gyda Dr Rachel McNamara). Daeth y bartneriaeth hon ag arbenigedd clinigol ac ymchwil ynghyd, a dyfarnwyd cyllid HTA i'r tîm (£1.2 miliwn) i gynnal RCT pragmatig o Therapi Integreiddio Synhwyrdd o gymharu â gofal arferol ar gyfer anawsterau prosesu synhwyrdd mewn Anhwyllder Sbectrum Awtistiaeth mewn plant: effaith ar anawsterau ymddygiad, addasol sgiliau a chymdeithasu (SenITA). Dechreuodd yr astudiaeth hon ac mae bellach wedi'i chyflawni'n llwyddiannus o ganlyniad i'r cydweithrediad hwn. Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno ym mis Mai 2021 a bydd cydweithrediadau a sefydlwyd yma bellach yn llywio astudiaethau parhaus.



Trafod Treialon

Mae trafod treialon yn archwiliad o amgyffredion pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig o dreialon clinigol.

Prif Ymchwilydd: Sarah Bridges a Martina Svobodova, Canolfan Treialon Ymchwil

Ariannwr: Dyfarniad Prawf o Gysyniad Ymgysylltiad â'r Cyhoedd Cronfa Cefnogaeth Strategol i Sefydliadau (ISSF) Ymddiriedolaeth Wellcome

Mae ymchwil yn dangos bod treialon clinigol yn aml yn brin o'r amrywiaeth ethnig a welir yn nodweddiadol mewn cleifion go iawn a bod cleifion lleiafrifoedd ethnig yn cael profiadau gwaeth wrth gael at driniaeth a'u bod yn goroesi'n waeth yn gyffredinol. Mewn partneriaeth â Chanolfan Datblygu Cymunedol De Glan-yr-afon, mae'r prosiect hwn yn gweithio gyda grŵp o drigolion o Lan-yr-afon (Caerdydd), gan ddefnyddio grwpiau ffocws a deunyddiau creadigol i gynhyrchu arddangosfa sy'n archwilio amgyffredion am ymchwil, ynghyd â thrafod y ffyrdd y gallwn sicrhau bod ein hymchwil yn fwy cynhwysol ac yn adlewyrchu'r amrywiaeth mewn cymdeithas yn well.

Er enghraifft, mae'r grwpiau ffocws wedi trafod taflenni gwybodaeth cyfranogwyr a ddsberthir i unrhyw un sy'n ystyried cymryd rhan mewn treial clinigol. Oherwydd bod y taflenni hyn yn aml yn gymhleth iawn ac yn defnyddio iaith anodd, ystyriodd y grŵp ffyrdd gwahanol o gyflwyno'r wybodaeth hon.

Mae gweithio gyda chyfranogwyr o gefndiroedd ethnig amrywiol wedi cynnig cipolwg unigryw i'r ffordd y mae'r cyhoedd yn darllen ac yn dehongli deunyddiau cyfranogwyr treialon ac i'r ymwybyddiaeth o dreialon clinigol yn gyffredinol. Mae ymrwymadau celfyddydol anffurfiol yn ystod y gweithdai wedi bod yn rhoi'r cyfle i ategu agwedd air-ganolog yr ymchwil hon ac mae wedi helpu i gasglu data a safbwyntiau cyfannol.


Mentora Academaidd

Rydym yn darparu mentora academaidd i bedwar o'r rhai a gafodd Ddyfarniadau Amser Ymchwil y GIG Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ddiweddar:

- Dr Sadie Jones (cymrawd ymchwil glinigol) a Dr Sarah Gwynne (oncolegydd clinigol ymgynghorol, Canolfan Ganser De-orllewin Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe) - mentor academaidd yr Athro Richard Adams
- Dr Rachel Abbott (dermatolegydd ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro) - mentor academaidd Dr Emma Thomas-Jones
- Dr Jane Nichols (ymgyngorydd ym maes iechyd rhywiol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro) - mentor academaidd Dr Dave Gillespie

Cymrodoriaeth Glinigol

Sicrhodd Dr Magda Meissner gymrodoriaeth treialon clinigol gan Ymchwil Canser y DU i weithio'n rhan amser gyda'r Ganolfan Treialon Ymchwil yn 2019. Fel rhan o lwyddiant ei swydd, rydym wedi sicrhau cyllid mewn cydweithrediad â Chanolfan Ymchwil Canser Cymru ac, o ganlyniad, mae wedi trosglwyddo o'i swydd glinigol ym Mryste i fabwysiadu cymrodoriaeth glinigol amser llawn yng Nghaerdydd, yn gweithio rhwng Prifysgol Caerdydd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Bydd hyn yn cynnig gwell gallu iddi chwilio am swydd ymchwilydd treialon clinigol academaidd tymor hwy ac oncolegydd meddygol ymgynghorol mygedol wrth inni gamu i 2022.



Gweithio gydag Ymchwil Canser y DU ac Unedau Treialon Clinigol eraill

Rydym yn parhau i gynnal cysylltiadau cryf a chadarnhaol â llawer o Unedau Treialon Clinigol ledled y DU, gan weithio ar y cyd ac fel arweinwyr. Er enghraifft, mae Claire Johnson yn arwain materion Sicrwydd Ansawdd a Rheoleiddio (mewnol) y Ganolfan Treialon Ymchwil a grŵp Sicrwydd Ansawdd Unedau Treialon Clinigol UKCRC (fel cadeirydd), ac mae'n aelod o'r Grŵp Gweithredol ar gyfer Unedau Treialon Clinigol UKCRC.

Mae llawer o'n hymchwil yn dibynnu ar gyllid elusennol, sydd yn ei dro yn dibynnu ar roddion gan y cyhoedd. Mae'r tîm wedi bod yn ymwybodol iawn o effaith y pandemig ar elusennau, gan gynnwys ein hariannwr mwyaf, Ymchwil Canser y DU. Gyda hyn mewn cof, chwaraeon ran hanfodol yn sefydlu menter gyntaf "baton4cancer" yng Nghymru yn ystod ton gyntaf Covid a chynhaliom ddigwyddiad tîm rhithwir, lle y gwnaethom feicio o gwmpas arfordir Cymru, gan godi arian at Ymchwil Canser y DU. Fe wnaeth cymryd rhan ym menter Cycle 300 ddilyn yn fuan wedi hynny, a gafodd sylw yn y cyfryngau lleol. Rydym bellach yn arwain menter ar y cyd ag Ymchwil Canser y DU a'r 7 chwaer uned treialon clinigol eraill yn y DU sy'n derbyn arian craidd gan Ymchwil Canser y DU, gan adeiladu ar ein taith Bikeathon 2019 i Swydd Wiltshire.

Addasu i gefnogi'r GIG trwy'r pandemig

Mae aelodau'r Ganolfan Treialon Ymchwil wedi bod yn cefnogi'n rhagweithiol lle y gallent yn ystod y pandemig, gan ddefnyddio'u sgiliau i wneud hynny. Roedd hyn yn cynnwys cynorthwyo â sefydlu ac agor astudiaethau brechlyn Covid ar draws Cymru, gan gymryd gwaith oddi wrth nyrsys treialon a gyfeiriwyd at ofal clinigol. Yn y cyfamser, dychwelodd ein staff a hyfforddwyd yn glinigol i gefnogi'r GIG trwy newid i lwyth gwaith amser llawn y GIG, gan ddychwelyd i waith y Ganolfan Treialon Ymchwil yn gynnar yn yr hydref.

PECYN GWAITH 3:

Datblygu astudiaethau newydd

Dylunio astudiaethau newydd
ac ennill y cyllid i'w rhoi ar waith





Yr Adran Ganser

Arolwg y GIG

Ym mis Hydref a mis Tachwedd 2020, cynhaliom arolwg ar draws y GIG yng Nghymru, dan arweiniad yr Athro Richard Adams ac ar y cyd â Chanolfan Ymchwil Canser Cymru a'n tîm Gwasanaeth Dylunio a Chynnal Ymchwil.

Yn yr holiadur, roeddem yn ceisio gwybodaeth am rwystrau i staff yn y GIG rhag dod yn arweinwyr mewn ymchwil glinigol cancer. Dosbarthwyd yr holiadur i bob tîm cancer amlddisgyblaethol ledled Cymru. Gwerthusom yr ymatebion gan 80 o ymarferwyr gofal iechyd cancer, gan gynnwys oncolegwyr, llawfeddygon, nyrsys, ffisiotherapyddion, radiograffwyr, seicolegwyr a gwyddonwyr clinigol.

Mae canlyniadau'r arolwg hwn yn dangos bod rhwystrau yn cael eu canfod a'u profi ar lefel unigol a grŵp proffesiynol. Er bod cymorth ar gael, trwy'r Gwasanaeth Dylunio a Chynnal Ymchwil a lle bo angen trwy unedau treialon clinigol yng Nghymru, mae angen cyfeirio'n well at hyn, ac mae angen adolygu llwythi gwaith a dyrannu amser o fewn cynlluniau swyddi ar gyfer datblygu'r gwaith pwysig hwn ac i sicrhau cynllunio ar gyfer olyniaeth i'n harweinwyr yn y dyfodol.

Mae'r arolwg wedi darparu gwybodaeth werthfawr a meysydd ffocws wrth symud ymlaen, ac rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a'i cwblhaodd.

Gan ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd yn yr arolwg, rydym yn symud ymlaen mewn partneriaeth â'r GIG ar nifer o fentrau i ymgysylltu ag unigolion a'u cynorthwyo i ddatblygu ac arwain ar syniadau astudio yn y dyfodol a gobeithiwn adrodd yn gadarnhaol ar hyn yn adroddiad y flwyddyn nesaf.





Yr Adran Heintiau, Llid ac Imiwedd

PEACH

Mae astudiaeth Procalcitonin: Gwerthusiad o'r Defnydd o Wrthfotigau gyda Chleifion COVID-19 mewn Ysbytai (PEACH) yn fenter gydweithredol rhwng Caerdydd, Prifysgol Leeds a Phrifysgol Lerpwl.

Prif Ymchwilydd: Dr Jonathan Sandoe, Ysgol Meddygaeth Prifysgol Leeds

Ariannwr: Y Sefydliad Ymchwil Iechyd Cenedlaethol



Gwerthuso a allai prawf gwaed syml ar gyfer haint bacterol helpu i leihau'r defnydd o wrthfotigau ar gyfer cleifion â COVID-19.

Defnyddir prawf gwaed procalcitonin (PCT) mewn ysbytai i wahaniaethu rhwng heintiau bacterol a feirysol ac arwain triniaeth wrthfotig. Bydd yr astudiaeth hon yn edrych ar p'un a yw'r prawf yn effeithiol ymhlith cleifion Covid-19 drwy edrych ar ddata o don gyntaf y pandemig yn ysbytai'r DU.

Ein nod fydd gweld a wnaeth defnyddio'r prawf gyda chleifion Covid-19 leihau gwrthfotigau a/neu wella deilliannau i gleifion, megis amser yn yr ysbyty neu ofal dwys, cyfraddau marwolaeth a heintiau oherwydd archfygiau, a bydd hefyd yn asesu pa mor gost-effeithiol yw hyn.

Byddwn yn paratoi canllawiau i feddygon ynglŷn â'r ffordd orau o ddefnyddio'r prawf gyda chleifion sydd â Covid-19, fel bod modd dechrau ar wrthfotigau'n gynnar os oes angen, a'u hatal yn ddisymwth os na fydd eu hangen, gan leihau sgîl-effeithiau, ymwrthedd i wrthfotigau a heintiau gan archfygiau.



“Feirws SARS-COV-2 sy'n achosi Covid-19, felly nid oes gan wrthfotigau unrhyw effaith uniongyrchol. Ar ben hynny, mae data a gyhoeddwyd yn awgrymu bod cyfraddau haint bacterol eilaidd yn isel ymhlith cleifion COVID-19, felly gallai defnyddio gwrthfotigau wrth gam cynnar o'r clefyd fod yn ddiangen. Er gwaethaf hyn, mae gwrthfotigau'n cael eu rhoi i lawer o gleifion ar sail profiad a mater o drefn oherwydd pryderon y gallen nhw gael heintiau bacterol eilaidd.

**Dr Emma Thomas-Jones,
Uwch Gymrawd Ymchwil a Dirprwy
Gyfarwyddwr yr Adran Heintiau,
Llid ac Imiwedd**






Adran y Meddwl, yr Ymennydd a Niwrowyddorau

Bu ein ffocws dros y flwyddyn ddiwethaf ar addasu astudiaethau i'w cyflwyno yn amgylchedd Covid ochr yn ochr â gweithio gydag ystod o ymchwilwyr i gyflwyno ceisiadau cyllido newydd. Yma rydym yn tynnu sylw at un o'n hastudiaethau (LEAP-MS) a addaswyd ar gyfer cyflwyno'n gyfan gwbl o bell.

Astudiaeth: LEAP-MS

Pecyn Ffordd o Fyw, Ymarfer Corff a Gweithgarwch i Bobl sy'n byw gyda Sglerosis Ymledol Cynyddol

Prif Ymchwilydd: Yr Athro Monica Busse-Morris
Ariannwr: Y Gymdeithas Sglerosis Ymledol



Gwerthusodd astudiaeth LEAP-MS ymyrraeth gymhleth a gyflwynwyd o bell gydag adnodd ar-lein aml-ddefnyddiwr ar y we, hyd at chwe

sesiwn hyfforddi ffisiotherapi a phecyn hyfforddi ar gyfer ffisiotherapyddion. I ddechrau, bwriadwyd cyflwyno hyn mewn modd cyfunol ond fe'i symudwyd yn gyfan gwbl ar-lein oherwydd Covid-19.

Cynhaliwyd ymgynghoriadau ffisiotherapi gan ddefnyddio meddalwedd fideo-gynadledda neu dros y ffôn. Gweithredwyd pecyn hyfforddi yn canolbwyntio ar weithdrefnau ymyrraeth a darparu astudiaeth, a chynhaliwyd y broses a'r gwerthusiadau ffyddlondeb o bell.

Mae Gweithgor Treialon o Bell NIHR wedi cyhoeddi ei ganllawiau rhagarweiniol ar gyfer cynnal treialon o bell ac maent yn cynnwys LEAP-MS fel enghraifft o ddarparu ymyrraeth o bell a gyflawnwyd pan oedd mesurau cloi i lawr yn cyfyngu ar ymchwil heblaw ymchwil i Covid.

Yn ogystal, dewiswyd LEAP-MS fel un o'r pum astudiaeth achos ar gyfer dysgu o brosiect addasiadau Covid sy'n cael ei redeg gan Sheffield.



Gellir gweld y canllawiau a'r enghraifftiau yma.

SGEMA

Gwerthusiad Ysbyty Gofal Diogel o Gelf-Seicotherapi â Llaw (rhyngbersonol): Hapdreial Rheoledig

Prif Ymchwilydd: Simon Hackett

Ariannwr: Cymrodoriaeth Glinigol Uwch NIHR

Mae'r tîm ymchwil yn cynnwys seicotherapyddion celf ac ymchwilwyr. Mae pobl ag anableddau dysgu wedi siarad â ni am yr ymchwil hon ac wedi ein helpu i'w dylunio, cynllunio sut i'w gwneud, a sut rydym ni'n dweud wrth bobl amdani pan fydd wedi gorffen.

Yn y gorffennol, roedd pobl ag anabledd dysgu yn aml yn cael eu heithrio rhag cymryd rhan mewn ymchwil. Mae hyn yn golygu nad yw gwybod beth sy'n gweithio'n dda iddyn nhw bob amser yn glir. Mae llawer o seicotherapiau sydd ar gael i helpu pobl ag anawsterau iechyd meddwl wedi'u seilio ar siarad, ac efallai nad dyma'r dull gorau i bobl ag anableddau dysgu bob amser. Gall gwneud gwaith celf neu bethau creadigol o fewn seicotherapi celf fod yn ffordd ddefnyddiol i bobl gyfathrebu amdanynt eu hunain. Dyluniwyd seicotherapi celf rhyngbersonol i helpu pobl ag anableddau dysgu mewn gofal diogel. Mae'r seicotherapydd celf yn annog pobl i ddefnyddio ffyrdd creadigol o fynegi'r pethau y maent yn rhwystredig, yn ddiogel, neu'n ofidus yn eu cylch.

Rydym am ddarganfod a yw seicotherapi celf rhyngbersonol yn ddefnyddiol ac yn cynnig gwerth am arian i bobl ag anableddau dysgu sydd mewn gofal diogel. Byddwn yn profi a yw seicotherapi celf rhyngbersonol yn gweithio'n well na'r gofal safonol sy'n cael ei ddarparu. I wneud hyn, bydd angen i ni recriwtio 240 o bobl a'u rhoi mewn grwpiau ar hap, gyda hanner yn cael seicotherapi celf rhyngbersonol a hanner ar restr aros amdano. Bydd pawb yn yr astudiaeth yn cael cyfle i gael seicotherapi celf rhyngbersonol.

Byddwn yn darganfod a all seicotherapi celf rhyngbersonol helpu pobl sydd mewn gofal diogel i wella eu hwyliau, dod yn llai trallodus, a pheidio â brifo eu hunain nac eraill. Credwn y bydd yr ymchwil hon yn rhoi mwy o ddewis i bobl ag anabledd dysgu ynghylch cyrchu seicotherapi mewn gofal diogel.



Adran Iechyd y Boblogaeth

Mewn cyfnod pan mae pandemig Covid-19 wedi dominyddu cymdeithas, mae'n hanfodol ac nid yw'n syndod bod hyn wedi dylanwadu'n drwm ar waith newydd. Mae dwy enghraifft Adran Iechyd y Boblogaeth yn dangos hyn.

Cronfa ddata ar-lein PAN-Covid

Prif Ymchwilyr: Yr Athro Christoph Lees a Dr Ed Mullins, Coleg Imperial Llundain

Ariannwr: Rhan o ymateb ymchwil cyflym gwerth £24.6 miliwn a ariennir gan UKRI a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, drwy'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Iechyd



Dan arweiniad Dr Julia Townson, mae ymchwilyr y Ganolfan wedi bod yn cydweithredu â thîm o Goleg Imperial Llundain i sefydlu cofrestrfa fyd-eang


o'r rhai y mae Covid-19 wedi effeithio arnynt yn ystod beichiogrwydd. Bydd cronfa ddata ar-lein PAN-Covid, a gynhelir gan y Ganolfan, yn casglu data ar fenywod sydd wedi cael Covid-19, neu yr amheuir eu bod wedi'i gael, o feichiogrwydd cynnar tan ar ôl geni'u babi. Bydd yr ymchwil yn helpu i gael gwell dealltwriaeth o sut mae Covid-19 yn effeithio ar feichiogrwydd cynnar, twf y ffetws, cynamseroldeb a throsglwyddo'r firws i'r babi. Mae'r astudiaeth eisoes wedi dangos nad yw haint Covid-19 mewn beichiogrwydd yn gysylltiedig â marw-enedigaeth neu farwolaeth newyddenedigol gynnar. Ar sail cofnodion o gronfa ddata PAN-Covid ac ail gronfa ddata yn yr Unol Daleithiau, mae'r astudiaeth wedi dangos hefyd bod prawf positif yn arwain at gyfraddau geni cynamserol uwch.

Symud Ymlaen

Bydd cyfweiliadau'n cael eu cynnal gyda'r rhai sy'n ddigartref sydd wedi cael cynnig o lety ers Covid-19 yn rhan o ymchwil yn asesu'r gefnogaeth y maent wedi'i derbyn.

Prif Ymchwilyr: Dr Peter Mackie, Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio Prifysgol Caerdydd a Dr Rebecca Cannings-John, Canolfan Treialon Ymchwil

Ariannwr: Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol UKRI



Mae'r astudiaeth yn canolbwyntio ar bobl sy'n ddigartref. Ar ddechrau cyfnod clo Covid-19, cafodd llawer o bobl ddigartref gynnig o lety brys er mwyn hwyluso hunanynysu diogel. Prif amcan yr astudiaeth yw ymchwilio a yw Llety Setledig yn atal haint Covid-19 ac yn lleihau ansefydlogrwydd tai o'i gymharu â Llety Dros Dro. Meddai Dr Rebecca Cannings-John, "Symud Ymlaen yw'r treial cyntaf i gael ei gynnal yn y DU gyda phobl sy'n profi digartrefedd, ac rydym yn falch iawn o gael gweithio gyda'r Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio a'r Ganolfan Effaith Ddigartrefedd er mwyn ei alluogi. Mae'r astudiaeth yn cael ei chyflwyno'n gydweithredol rhwng y Ganolfan Effaith Ddigartrefedd, Prifysgol Caerdydd, Alma Economics, a grŵp o awdurdodau lleol partner.

PECYN GWAITH 4:

Goruchwylio astudiaethau a ariennir

Cynnal astudiaethau o ansawdd uchel a chynhyrchu allbynnau a fydd yn gwneud gwahaniaeth i'r cyhoedd





Yr Adran Ganser

Rydym wedi bod yn brysur iawn yn ehangu ein hymgysylltiad rhyngwladol dros y flwyddyn ddiwethaf, er gwaethaf yr heriau amlwg.

Rydym wedi gweld treialon allweddol yn agor yn Unol Daleithiau America, Awstralia a Ffrainc (PATHOS) a, chydha thrafodaethau adeiladol gyda'r Sefydliad Ewropeaidd er Cydlynu Ymchwil a Threialon (EORTC), rydym yn anelu at agor mwy o safleoedd mewn pedair gwlad Ewropeaidd arall. Agorodd treial CORINTH yn Norwy a recriwtiodd ei glaf cyntaf yno ym mis Chwefror 2021. Agorodd a recriwtiodd EWALL ei glaf cyntaf yn Ffrainc ac mae disgwyl iddo agor yn yr Almaen, y Weriniaeth Tsiec, Sweden a hyd yn oed y DU dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Ar ddechrau pandemig, cyfeiriwyd adnoddau gofal iechyd y DU tuag at ddarparu gofal y GIG ac, felly, gwnaethom roi'r gorau i recriwtio i fwyafrif ein treialon er mwyn lleihau'r pwysau ar staff y GIG, ond roeddem yn parhau i ofalu am y nifer fawr o gleifion a oedd eisoes wedi cofrestru ar ein hastudiaethau. Fodd bynnag, yn fuan ar ôl y don gyntaf, gofynnodd llawer o safleoedd i ni ailddechrau recriwtio gan fod yr astudiaethau'n cael eu hystyried yn allweddol ar gyfer y gofal gorau posibl, yn enwedig i'n portffolio treialon cancer. Fe wnaethom fabwysiadu proses adolygu risg ganolog i sicrhau y gallai treialon gael eu hagor yn briodol, yn strategol ac yn ddiogel ac mae mwyafrif helaeth ein treialon wedi bod ar waith dros y chwe mis diwethaf.

TIC-TOC

Prif Ymchwilywyr: Yr Athro Kate Brain a Dr Grace McCutchan, Prifysgol Caerdydd

Ariannwr: Ymchwil Cancer Cymru

Mae Ymchwil Cancer Cymru wedi blaenoriaethu anghydraddoldebau cancer fel maes allweddol ar gyfer ymchwil. Mae nifer yr achosion o ganser a marwolaethau rhai canserau hyd at 25% yn fwy mewn ardaloedd difreintiedig o gymharu ag ardaloedd mwy cefnog. Mae'r elusen wedi ariannu 'TIC-TOC', sef 'Ymgyrch Dwys Targedig yn y Gymuned i Optimeiddio Ymwybyddiaeth Cancer', i fynd i'r afael â llwyddiant cyfyngedig a natur dros dro ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gonfensiynol sy'n aml yn colli'r grŵp targed. Dan arweiniad Prifysgol Caerdydd, bydd yr ymchwil hon yn creu rhwydweithiau sy'n cynnwys hyrwyddwyr cancer cymunedol, arweinwyr gofal sylfaenol a Chanolfannau Diagnostig Cyflym sydd wedi'u lleoli'n strategol i chwalu rhwystrau a gwella ymddygiadau ceisio iechyd sy'n arwain at anghydraddoldebau cancer yng Nghymru. Bydd canlyniadau'r ymchwil hon yn berthnasol i gyflyrau iechyd eraill.

ROCS *Radiotherapi ar ôl rhoi Stent ar gyfer Cancer yr Oesoffagws*

Prif Ymchwilywyr: Dr Douglas Adamson a Dr Anthony Byrne

Ariannwr: Rhaglen Asesu Technoleg Iechyd NIHR

Dangosodd astudiaeth ROCS lai o waedu mewn tiwmorau sy'n cael eu trin â radiotherapi.

Astudiaeth ROCS oedd y darpar dreial cyntaf i ddangos llai o waedu mewn tiwmorau a gafodd eu trin â radiotherapi mewn cleifion â chlefyd datblygedig. Mae'r astudiaeth hefyd wedi dangos nad yw cyfuno radiotherapi â gosod stent yn y boblogaeth fregus hon yn gwella llyncu ymhellach, a bod y driniaeth yn feichus ac, o'r herwydd, mae'n well ei hosgoi i'r mwyafrif o gleifion yn y cyd-destun hwn.

Meddai Dr Dougal Adamson, "Fe wnaeth radiotherapi lliniarol leihau'r risg o waedu a dyma'r darpar astudiaeth gyntaf y gwyddom amdani sydd wedi dangos tystiolaeth gadarn o effaith radiotherapi ar risg gwaedu tiwmor. Fodd bynnag, dylid cadw'r driniaeth hon ar gyfer y lleiafrif sy'n wynebu'r risg uchaf o waedu er mwyn lleihau'r baich a sicrhau'r buddion gorau posibl."

Meddai Dr Anthony Byrne, "Mae ein hastudiaeth yn dangos pa mor bwysig yw cynnwys cleifion yng nghyfnod lliniarol eu salwch - sydd â chlefyd datblygedig - mewn treialon clinigol: anaml iawn maent yn ganolbwynt astudiaethau ar raddfa fawr er gwaethaf pwysigrwydd canlyniadau o'r fath i'w gofal a'u hansawdd bywyd."



Yr Adran Heintiau, Llid ac Imiwedd


Astudiaeth pace ar y defnydd o wrthfotigau yn ennill papur ymchwil y flwyddyn

Mae astudiaeth ar y defnydd o wrthfotigau ar y cyd â Phrifysgol Rhydychen a Choleg y Brenin Llundain, wedi ennill papur ymchwil y flwyddyn. Cyhoeddwyd 'C-reactive Protein guided antibiotic prescribing for COPD exacerbations' yn New England Journal of Medicine fis Gorffennaf diwethaf, ac mae bellach weni ennill y wobwr ymchwil glinigol gyffredinol gan Goleg Brenhinol y Meddygon Teulu.

Daeth yr astudiaeth, dan arweiniad Canolfan Treialon Ymchwil ac Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd, i'r casgliad y gallai prawf gwaed pigiad bys syml helpu i atal rhoi presgripsiynau gwrthfotigau diangen i gleifion gyda chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD).



Mwy o wybodaeth a fideo yma.



Dywedodd yr Athro Chris Butler:

"Mae'r treial clinigol trylwyr hwn yn siarad yn uniongyrchol â materion dybryd cadw defnyddioldeb ein gwrthfotigau presennol; potensial gofal haenedig, wedi'i bersonoli; pwysigrwydd tystiolaeth sy'n briodol i'r cyddestun ynghylch profion pwynt gofal wrth leihau defnydd gwrthfotig diangen a gwella ansawdd gofal i bobl sydd â chyflwr cyffredin clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint."



Dywedodd yr Athro Nick Francis:

"Mae llywodraethau, comisiynwyr, clinigwyr, a chleifion sy'n byw gyda COPD ledled y byd yn chwilio am offer ar frys i'w helpu i wybod pryd y mae peidio â rhoi gwrthfotigau'n ddiogel a chanolbwyntio ar drin pyliau gyda thriniaethau eraill.

"Ystyrir bod y cleifion yn wynebu risg uchel os nad ydynt yn cael gwrthfotigau. Ond, fe lwyddon ni i sicrhau gostyngiad yn y nifer sy'n defnyddio gwrthfotigau, ac mae hyn tua dwywaith cymaint â'r hyn a gyflawnwyd gan y mwyafrif o ymyriadau stiwardiaeth gwrthficrobaidd eraill, gan ddangos bod hyn yn ddull diogel."



Adran y Meddwl, yr Ymennydd a Niwrowyddorau



SenITA

Treial rheoledig ar hap o Therapi Integreiddio Synhwyrdd o gymharu â gofal arferol ar gyfer anawsterau prosesu synhwyrdd mewn plant ag awtistiaeth.

Prif Ymchwilywr: Dr Rachel McNamara a Sue Delport

Ariannwr: Rhaglen Asesu Technoleg Iechyd NIHR

Mae awtistiaeth yn gyflwr gydol oes cyffredin sy'n effeithio ar 1 o bob 100 o bobl a gall effeithio ar berthynas unigolyn ag eraill a'r byd o'u cwmpas. Mae anhawster wrth ymateb i wybodaeth synhwyrdd (sŵn, cyffwrdd, symudiad, blas, golwg) yn gyffredin mewn anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth. Mae'r 'anawsterau prosesu synhwyrdd' hyn yn gysylltiedig â phroblemau ymddygiad a chymdeithasoli, ac yn effeithio ar addysg, eu perthynas â phobl eraill a chyfranogiad ym mywyd beunyddiol. Mae Therapi Integreiddio Synhwyrdd yn ymyrraeth therapi galwedigaethol dwys seiliedig ar chwarae, wedi'i ddarparu gan therapydd, ac mae Therapyddion Galwedigaethol hefyd yn gweithio gyda theuluoedd i ddarparu cyngor ar strategaethau y gellir eu gweithredu gartref. Mae ymchwil yn awgrymu y gallai'r math hwn o therapi fod yn fuddiol i rai plant ag awtistiaeth.

Gwnaethom recriwtio 138 o blant (69 wedi'u neilltuo ar hap h.y. trwy siawns, i dderbyn therapi a 69 i barhau â'u gofal arferol) ac asesu ymddygiad, gweithredu bob dydd, cymdeithasu, a straen rhieni/gofalwyr ymhen 6 a 12 mis gan ddefnyddio holiaduron.

Trefnom grwpiau trafod ar gyfer therapyddion a gofalwyr cyn mynd ceisio pobl i gymryd rhan, fel y gallem fapio'r hyn y mae pobl fel arfer yn ei dderbyn fel 'gofal arferol'. Hefyd yn yr astudiaeth, roedd gennym ddiddordeb ym marn gofalwyr am eu profiad ac am broblemau synhwyrdd eu plentyn, a chyfwelom â sampl o ofalwyr. Gwnaethom hefyd gyfweled â therapyddion i gael syniad o ba ymyrraeth a ddarparwyd mewn gwirionedd i bobl yn yr astudiaeth. Gwnaethom asesu'r gost o gynnig y math hwn o driniaeth, o gymharu â gofal arferol. Roedd rhieni a gofalwyr plant ag awtistiaeth ac anawsterau prosesu synhwyrdd yn ymwneud â chynllunio a rheoli'r ymchwil hon.

Bellach, rydym wedi cwblhau casglu data ar gyfer yr astudiaeth hon rydym ac yn paratoi'r adroddiad terfynol i'r ariannwr.

STUDY PROTOCOL

Open Access



Yr astudiaeth Agweddau Cadarnhaol Cynnar at Gefnogaeth (E-PAtS): protocol astudio ar gyfer clwstwr dichonoldeb ar hap a reolir ar hap o raglen grŵp (E-PAtS) ar gyfer rhoddwyr gofal teuluol plant ifanc ag anabledd deallusol

Elinor Coulman¹, Richard Hastings^{2*}, Nick Gore^{3*}, David Gillespie¹, Rachel McNamara¹, Stavros Petrou⁴, Jeremy Segrott⁵, Jill Bradshaw³, Kerry Hood¹, Andrew Jahoda⁶, Geoff Lindsay², Fiona Lugg-Widger¹, Michael Robling¹, Jacqui Shurlock² and Vaso Totsika⁸

E-PAtS

Dulliau Cadarnhaol Cynnar ar gyfer Cynorthwyo teuluoedd plant ifanc ag anabledd deallusol.

Prif Ymchwilyr: Yr Athro Richard Hastings, Prifysgol Warwick a Dr Nick Gore, Canolfan Tizard, Prifysgol Caint

Ariannwr: Rhaglen Asesu Technoleg Iechyd NIHR

Gwnaethom ddatblygu rhaglen rianta ar gyfer rhieni plant ifanc (un a hanner i bum mlwydd oed) ag anabledd deallusol o'r enw Dulliau Cadarnhaol Cynnar ar gyfer Cynorthwyo (E-PAtS). Mewn E-PAtS, rhoddir strategaethau ymarferol i grwpiau o rieni dros gyfnod o 8 wythnos. Mae'r strategaethau hyn yn eu helpu i ofalu amdanynt eu hunain a'u cefnogi â datblygiad eu plentyn. Yn dilyn hyfforddiant, mae rhiant plentyn ag anableddau a gweithiwr proffesiynol yn cyd-gyflwyno E-PAtS.

Gwnaethom recriwtio 74 o riant-ofalwyr plant ifanc ag anabledd deallusol i gymryd rhan. Fe'u neilltuwyd, ar hap, i fynychu grŵp E-PAtS neu i dderbyn eu cefnogaeth arferol yn unig. Gofynnwyd i bob rhiant, p'un a oeddent yn mynychu'r grŵp E-PAtS ai peidio, gwblhau rhai mesurau o bethau a allai newid yn ystod E-PAtS. Y mesur pwysicaf oedd newidiadau yn lles seicolegol rhieni.

Roedd yr astudiaeth hon yn astudiaeth ddichonoldeb - roeddem yn gwirio a oedd yr ymchwil yn gweithio'n dda fel y gellid cynllunio astudiaeth lawer mwy yn y dyfodol. Ymhlith pethau eraill, fe wnaethom ddarganfod bod rhieni'n barod i gymryd rhan yn yr ymchwil, mynychu'r rhan fwyaf o'r sesiynau E-PAtS, cwblhau'r mesurau ymchwil, a mynegodd sefydliadau a gyflwynodd gyrsiau magu plant ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn astudiaeth fwy.

Gwnaethom hefyd gyfnewid â rhieni, yr hwyluswyr (pobl sy'n cyflwyno E-PAtS), a phobl o'r sefydliadau a gyflwynodd E-PAtS. Mwynhaodd pobl fod yn rhan o grwpiau E-PaAts ac roedd eu hagwedd am gymryd rhan yn gadarnhaol. Rydym bellach yn barod i gynnal astudiaeth ehangach.



Gallwch ddarllen yr astudiaeth yma.



Adran Iechyd y Boblogaeth

Mae dwy enghraifft o ymchwil iechyd y boblogaeth yn ystod y 12 mis diwethaf yn dangos yr allbwn diweddaraf o un rhaglen ymchwil hirsefydlog ac allbynnau cyntaf astudiaeth newydd sydd ei hun yn rhan o gydweithrediad hirach rhwng yr Athro Kate Brain (Prifysgol Caerdydd, Adran Meddygaeth y Boblogaeth) a'r Ganolfan.


Blociau Adeiladu: 2-6

Prif Ymchwilydd: Yr Athro Mike Robling

Ariannwr: Rhaglen Asesu Technoleg Iechyd NIHR

Ym mis Chwefror, cyhoeddodd cyfres NIHR Journals ganlyniadau'r Bloc Adeiladu: Astudiaeth 2-6 a werthusodd effaith tymor hwy'r rhaglen arbenigol ymweld â'r cartref, y Bartneriaeth Nyrsys Teulu (FNP).

Dechreuodd ymchwilwyr yn y Ganolfan dan arweiniad Mike Robling astudio effeithiau FNP yn fuan ar ôl iddo gael ei gyflwyno i'r DU fel ffordd o gefnogi mamau yn eu harddegau sy'n disgwyl eu plentyn cyntaf. Dechreuodd treial y Blociau Adeiladu yn 2008, gan ddilyn dros 1600 o deuluoedd yn Lloegr am oddeutu dwy flynedd a hanner. Mae'r tîm ymchwil bellach wedi dilyn y teuluoedd a gafodd eu recriwtio i'r treial nes bod plant yn cael eu hasesu yng Nghyfnod Allweddol 1, rhwng chwech a saith oed. Mae eu hadroddiad yn dangos effaith y rhaglen ar gamdriniaeth ac esgeulustod, yn ogystal â chanlyniadau datblygiad plant. Mae'r astudiaeth wedi elwa o'r model cyflogaeth parhaus yn y Ganolfan wedi'i alluogi gan gyllid craidd, gan ddarparu parhad a'r gallu i ddatblygu a chadw staff ymchwil o ansawdd uchel.



CABS

Astudiaeth Ymddygiad Iechyd a Cheisio Cymorth Covid.

Prif Ymchwilydd: Yr Athro Kate Brain

Ariannwr: Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol trwy ymateb cyflym UKRI i COVID-19



Mae CABS yn mesur agweddau ac ymddygiadau cancer ymysg oedolion 18+ ledled y DU. Wedi'i ariannu gan UKRI ac yn gweithio mewn partneriaeth agos ag Ymchwil Cancer y DU, mae'r astudiaeth yn mynd i'r afael â phryderon am effaith Covid-19 ar ymateb y cyhoedd i symptomau cancer posibl. Gall ceisio cymorth yn gynnar, gan gynnwys ymateb i wahoddiadau i sgrinio, ganiatáu i driniaethau gychwyn yn gynt a gwella canlyniadau.

Roedd rownd gyntaf arolwg yn cynnwys dros 8,000 o ymatebwyr o bob rhan o'r DU, gan gynnwys nifer fawr a nodwyd trwy Doeth am Iechyd Cymru. Mae canlyniadau cynnar a adroddwyd ar ffurf rhagbrent eisoes wedi llywio ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus fel #GwiriwchEf.Cymru

Bydd canlyniadau pellach yn parhau i ddatblygu negeseuon iechyd cyhoeddus clir, gan annog pobl i weithredu ar arwyddion cynnar cancer, ymgymryd â sgrinio cancer pan fydd ar gael, ac ymddwyn yn iach. Mae'r astudiaeth hefyd yn cynrychioli'r tir cyffredin rhwng Adrannau Iechyd y Boblogaeth a Chanser y Ganolfan, maes y mae'r ddau Gyfarwyddwr Adrannol yn awyddus i'w ddatblygu ymhellach mewn astudiaethau yn y dyfodol.



TRUFFLE 2

Treial sy'n edrych ar y gwahaniaeth mewn canlyniadau niwroddatblygiadol yn 2 oed babanod a ddangosodd arwyddion o iechyd gwael rhwng 32 a 36 wythnos o feichiogrwydd.

Prif Ymchwilydd: Yr Athro Christoph Lees, Coleg Imperial Llundain

Ariannwr: Ymchwil Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Iechyd – Rhaglen Asesiad Technoleg Iechyd

Yn ystod misoedd olaf beichiogrwydd, mae babanod sy'n llai neu sy'n tyfu'n arafach na'r disgwyl mewn mwy o berygl o farw yng nghroth y fam. Gall rhai o'r babanod llai hyn sy'n goroesi gael problemau datblygiadol yn ddiweddarach yn eu babandod. Mae gan feddygon lawer o ffyrdd o fonitro babanod o'r fath yn y groth ond, nes i'r babi gael ei eni, yr unig driniaeth sydd ar gael yw esgor ar y babi. Os yw'r beichiogrwydd wedi cyrraedd ei dymor llawn, cymell geni yw'r opsiwn arferol. Os yw'r babi yn gynamserol (cyn 37 wythnos o feichiogrwydd) mae'r cam gweithredu cywir yn llai eglur. Bydd geni'r babi yn gynnar, cyn gynted ag y bydd arwyddion o broblemau, yn lleihau unrhyw ddifrod oherwydd diffyg ocsigen yn y groth, ond gall y babi ddiodef niwed o ganlyniad i gael ei eni'n gynamserol. Mae'r astudiaeth hon yn edrych ar gydbwysedd y risgiau sy'n gysylltiedig â pharhau â'r beichiogrwydd ychydig yn hirach neu esgor ar y babi yn gynnar.



Er gwaethaf pandemig Covid-19, agorodd y treial i recriwtio ym mis Hydref 2020. Mae'r Ganolfan Treialon Ymchwil wedi chwarae rhan ganolog

wrth gydlynu'r treial hwn, gyda chefnogaeth gan dimau rheoli data a threialon, ystadegau a gweinyddol. Hyd yma, rydym wedi agor 37 o safleoedd ledled Ewrop (9 yn y DU), wedi recriwtio 364 o ferched, y mae 44 ohonynt wedi'u gosod ar hap. Yn ddiweddar, canmolodd y cyllidwr dîm y treial am y cyflawniad hwn.

PECYN GWAITH 5:

Sicrhau datblygiad methodolegol a phroffesiynol

Datblygu ffyrdd newydd o ateb cwestiynau clinigol pwysig a chynnal gweithlu deinamig a phroffesiynol



Methodoleg

Mae methodoleg yn ymwneud â sut rydym yn gwneud yr ymchwil yn hytrach na chanlyniad yr ymchwil. Gellir rhannu ein meysydd diddordebau methodolegol yn bum prif faes:


1. Datblygu a mesur canlyniadau
2. Dull cynnal treialon
3. Dylunio a dadansoddi treialon newydd
4. Gweithredu
5. Data arferol

Gall gwelliannau mewn methodoleg ddod â buddion uniongyrchol i'n portffolio treialon yn y Ganolfan Treialon Ymchwil. Gall gwaith o fewn datblygu canlyniadau sicrhau arfer gorau ar gyfer canlyniadau i'w mesur a gweithio'n agos gyda chyfranogwyr treialon i sicrhau bod mesuriadau canlyniadau yn dderbyniol ac yn ddichonadwy. Mae dull cynnal treial yn helpu i ddeall profiad y sawl a wnaeth gymryd rhan yn y treial a chael dealltwriaeth ddyfnach o sut i gael caniatâd mewn poblogaethau heriol. Mae dyluniadau treialon newydd wedi caniatáu i dreialon fod yn fwy hyblyg trwy adolygu'r treial cronus er mwyn gwneud penderfyniadau i atal y treial yn gynnar neu ychwanegu canghennau triniaeth ychwanegol. Mae gweithredu yn helpu gyda'r asesiad o ffyddlondeb ac ymlyniad ein treialon a'r ddealltwriaeth o amrywiad cyd-destunol. Yn olaf, gall defnyddio data arferol ochr yn ochr â chasglu data traddodiadol arwain at enillion effeithlonrwydd mawr a llai o wastraff ymchwil.

Treial MELD-ATG mewn diabetes math 1

Mae gan bobl sy'n byw gyda diabetes math 1 (T1D) siwgrau gwaed annormal sydd, fel arfer, yn cael eu rheoli gan hormon o'r enw inswlin. Mae astudiaeth flaenorol wedi dangos bod meddyginiaeth o'r enw Globulin gwrth-thymocyte (ATG) ar ddogyn 2.5 mg/kg yn helpu i drin pobl 12-45 oed sydd newydd gael diagnosis o T1D. Mae ein treial o'r enw MELD-ATG (dos isel-ATG lleiaf effeithiol) eisiau ymchwilio i weld a ellir rhoi ATG i gyfranogwyr iau ac ar ddogynau is, i atal unrhyw sgîl-effeithiau neu wenwynau. Roedd angen i'r dyluniad fod yn newydd ac yn addasol yn ystod y treial, gan ddefnyddio'r data sy'n cronni. Rydym yn neilltuo carfannau o gyfranogwyr ar hap i sawl dos gwahanol neu blasebo, yna'n gwerthuso'r canlyniadau ar ddiwedd pob carfan.

Mae'r gwerthusiad o'r canlyniadau gan y pwyllgor penderfynu ar ddogyn yn nodi pa ddogyn fydd yn cael eu defnyddio mewn carfannau dilynol: naill ai 2.5mg, plasebo neu ddogyn canol sy'n edrych yn addawol iawn. Ein prif amcan yw gwirio a yw 2.5mg o ATG yn gweithio mewn poblogaeth Ewropeaidd ac mewn cyfranogwyr mor ifanc â 5 oed, ond hefyd ymchwilio i weld a yw dos is yn dda am reoli C-peptid, sy'n fionarcwr inswlin. Mae gan y treial hwn arbenigwyr o blith ein methodolegwyr treialon newydd sy'n helpu i greu dyluniad cadarn a all weithio'n ymarferol.



Datblygiad proffesiynol

Dr Julia Townson

Gwireddodd Julia ei huchelgais, sef cyflawni PhD, yn ystod haf 2020, yn dilyn dros 20 mlynedd o weithio mewn treialon clinigol ym Mhrifysgol Caerdydd ac ar ôl ymuno â'r Ganolfan Treialon Ymchwil yn 2009. Roedd Julia wedi bod yn awyddus i gwblhau PhD ar ôl cwblhau ei gradd israddedig fel myfyriwr aeddfed, ond gyda thri o blant ifanc, nid oedd hynny'n bosibl. Roedd y gefnogaeth a'r arweiniad a gafodd gan ei chydweithwyr yn y Ganolfan Treialon Ymchwil a Phrifysgol Caerdydd yn hollbwysig, ac yn caniatáu iddi weithio tuag at gyflwyno'i PhD trwy weithiau cyhoeddadedig.



Canfu mai un o fanteision dilyn PhD yn y modd hwn oedd ei fod wedi ei galluogi i barhau i adeiladu ei henw da yn y maes hwn, gan wneud ceisiadau llwyddiannus am gyllid, a arweiniodd yn ei dro at ei dyrchafiad yn Uwch Gymrawd Ymchwil yn 2020. Dyfarnwyd ei grant cyntaf iddi fel Prif Ymchwilydd yn 2015, gan Sefydliad Ymchwil Novo Nordisk UK, i gynnal astudiaeth gan ddefnyddio data a gesglir yn rheolaidd, i werthuso rhagarwyddion diagnosis o ddiabetes math 1 mewn plentyndod mewn gofal sylfaenol.



Mae Julia yn cefnogi ac yn cydweithredu â Phrif Ymchwilydd allanol, gyda'r nod o sicrhau ceisiadau llwyddiannus am gyllid, wrth ymgymryd â rôl arweinydd astudiaethau'r Ganolfan Treialon Ymchwil hefyd. Yn ddiweddar, mae hyn wedi arwain at lwyddo i ariannu dwy astudiaeth uchel eu proffil, yn ystod pandemig y coronafirws. Ariannwyd y ddwy o dan alwad cyllido cyflym UKRI; y cyntaf oedd creu cofrestrfa fyd-eang o ferched yr amheuir bod Covid-19 arnynt neu cadarnhawyd bod SARS-CoV-2 arnynt yn ystod beichiogrwydd (PAN-Covid). Darganfu'r astudiaeth hon nad yw haint COVID-19 mewn beichiogrwydd yn gysylltiedig â marw-enedigaeth na marwolaeth newyddanedig gynnar.

Mae'r ail yn astudiaeth iechyd a cheisio cymorth Covid (CABs) i ymchwilio i symptomau canser posibl y gallai unigolion fod wedi'u cael yn ystod y cyfnod clo a gwerthuso a wnaeth hyn effeithio ar eu hymddygiad o ran ceisio cymorth. Mae'r ddwy astudiaeth wedi adrodd ar ganfyddiadau cynnar, a arweiniodd at ddiddordeb yn y cyfryngau.

Dr Claire Nollett

Dechreuodd Claire ei gyrfa fel ymchwilydd iechyd meddwl, cyn hyfforddi fel Ymarferydd Lles Seicolegol yn y GIG. Ymunodd â'r Ganolfan Treialon Ymchwil yn dilyn cyfnod o 3 blynedd yn ymchwilio yn Ysgol Optometreg, Prifysgol Caerdydd yn 2014. Roedd cydweithwyr y Ganolfan Treialon Ymchwil yn gefnogol o'i huchelgais i ddilyn PhD trwy weithiau cyhoeddadedig.

I gyflawni hyn, roedd angen iddi ysgrifennu tua chwe phapur cyhoeddadedig ar un thema. Roedd ganddi eisoes dri chyhoeddiad o ansawdd da o'i swydd ymchwil flaenorol a chafodd gefnogaeth y Ganolfan Treialon Ymchwil i gynhyrchu tri arall. Gweithiodd ystadegydd y Ganolfan Treialon Ymchwil gyda hi i gynnal dadansoddiad data eilaidd o'i hastudiaeth ar iselder a cholli golwg, ac fe'i hanogwyd i wneud cais am arian grant i ddatblygu astudiaeth ymchwil gysylltiedig newydd. Ceisiodd yr astudiaeth ddeall a yw optometryddion yn ceisio nodi a rheoli iselder yn eu cleifion â golwg gwan, a'r rhwystrau iddynt wneud hynny'n ymarferol. Helpodd yr astudiaeth ychwanegol hon hi i gwblhau'r gwaith gofynnol ar gyfer PhD. Mae ei chanfyddiadau wedi cael eu cydnabod gan Goleg yr Optometryddion, a'i gwahoddodd i ddarparu hyfforddiant ar sgrinio iselder ac atgyfeirio i'w aelodau, ac ar hyn o bryd maent yn ystyried sut i ymgorffori rheoli iselder yn eu canllawiau.

Cyflwynodd ei thesis o'r enw 'Gwella cydnabyddiaeth a rheolaeth symptomau iselder mewn unigolion â golwg gwan' ym mis Ionawr 2021, naw mlynedd ar ôl i'w hymchwilio i'r pwnc hwn ddechrau yn wreiddiol.





Ymchwil Iechyd
a Gofal Cymru


Health and Care
Research Wales



PECYN GWAITH 6: RDCS a'r GIG

Cefnogi staff yn y GIG a gofal
cymdeithasol yng Nghymru i ddatblygu
eu hymchwil eu hunain i fynd i'r afael
â chwestiynau pwysig ynghylch gofal
cleifion a'r cyhoedd





Cefnogi staff yn y GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru i ddatblygu eu hymchwil eu hunain i fynd i'r afael â chwestiynau pwysig ynghylch gofal cleifion a'r cyhoedd.

RDCS a Covid-19



Mae'r pandemig wedi newid gwaith yr RDCS dros y flwyddyn ddiwethaf: Gyda phob ymarferydd yn canolbwyntio ar ddelio â'r argyfwng, roedd llawer

llai o geisiadau traddodiadol am gefnogaeth gyda cheisiadau cyllido yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn. Felly addasodd tîm RDCS y gwasanaeth i gynnig cefnogaeth fethodolegol i'n partneriaid yn y GIG, gan helpu ymarferwyr i ddatblygu gwerthusiadau o ymatebion eu gwasanaeth i'r argyfwng, yn aml ar gyflymder mawr, i ddal effaith y gwaith yr oeddent yn ei wneud. Gwnaethom hefyd gefnogi cydweithwyr academiaidd, nad ydynt fel rheol yn gymwys i gael cefnogaeth RDCS, i ddatblygu ymchwil frys sy'n gysylltiedig â Covid a gwneud cais am gyllid. Yn gyfan gwbl, roedd 14 o'r prosiectau Covid-19 hyn a oedd yn cynnwys gweithgareddau yn amrywio o ddatblygu syniadau, casglu a dadansoddi data, i ddylunio a cheisiadau UKRI. Un enghraifft o hyn oedd gwaith Kim Smallman gyda thîm ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg ar ddefnyddio rhith-realiti i gefnogi iechyd meddwl.

Ymhlith y gweithgaredd cysylltiedig â Covid roedd rhywfaint o "fusnes fel arfer" RDCS hefyd, yn cynorthwyo cleientiaid i ddatblygu ceisiadau cyllido a meithrin gallu ymchwil.

Un o'r timau rydyn ni wedi bod yn ei gefnogi ar draws portffolio o waith fu'r tîm Llawfeddygaeth Fasgwlaidd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, gan weithio i wella gofal pobl sydd wedi colli rhan isaf y goes. Mae arweinydd y prosiect hwn, Dave Bosanquet, wedi disgrifio effaith cyfranogiad RDCS dros sawl blwyddyn ar ddatblygiad yr ymchwil mewn astudiaeth achos a gynhwysir yn yr adroddiad hwn.



Y Gwasanaeth Dylunio a Chynnal Ymchwil (RDCS)



Mae Gwasanaeth Dylunio a Chynnal Ymchwil (RDCS) De-ddwyrain Cymru yn cefnogi staff sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac ym maes gofal cymdeithasol er mwyn datblygu cynigion ariannu ymchwil o ansawdd uchel.

Caiff y gwasanaeth ei ddarparu gan ymgyngorwyr RDCS o'r Ganolfan Treialon Ymchwil, sef y grŵp mwyaf o staff treialon clinigol academiaidd yng Nghymru.



70

cais am gymorth

16

cyflwyniad



Cleientiaid o

8

sefydliad y GIG ynghyd â gofal cymdeithasol



Cyllid o

£595,997



3

chyflwyniad llwyddiannus





Mynd â digwyddiadau ar-lein



Fel arfer, byddwn yn cynnal tri gweithdy ar draws y flwyddyn gyda'r nod o helpu cleientiaid i ddeall y dirwedd ariannu ac i'w paratoi nhw ar gyfer gwneud cais am grantiau ymchwil. Yn fuan ar ôl i Covid-19 daro, fe'n gorfodwyd i ganslo gweithdy wyneb yn wyneb cyntaf y flwyddyn a'i addasu trwy fynd â'n gweithdai ar-lein. Diben ein dau weithdy ar-lein cyntaf oedd cefnogi ymarferwyr a oedd yn gwneud cais am arian yn yr hydref. Fe wnaethom gynnal un sesiwn ar gyfer staff gofal cymdeithasol a oedd yn gwneud cais am Gymrodoriaeth Gofal Cymdeithasol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac un ar gyfer y rhai sy'n gwneud cais am gyllid sy'n gysylltiedig ag iechyd.

Rydym hefyd wedi bachu ar y cyfle a gyflwynodd Covid i glywed gan ein cleientiaid ac i adnewyddu ein rhaglen ddigwyddiadau ar gyfer 2021, yn unol â'u gofynion. Dosbarthwyd arolwg gennym i ddarganfod pa fath o gefnogaeth a fyddai o gymorth yn y dirwedd newydd hon. Maent wedi rhoi adborth inni ar y mathau o alwadau cyllid y mae ymgeisio amdanynt o ddiddordeb iddyn nhw a'r ystod o bynciau y maent am inni eu cynnwys. Daw'r mynd ar-lein gyda newid yn y fformat sy'n cael ei ffafrio, gan symud i sesiynau byrrach, 1-2 awr ar bynciau penodol a galwadau cyllido, gydag amser i drafod. Mae'r dull tameidiog hwn yn adlewyrchu'r cam tuag at rywbeth y gall ymarferwyr ei gynnwys yng ngweddill eu diwrnod a byddwn yn gweithredu hyn ar gyfer ein holl ddigwyddiadau yn 2021.

Prosiect Prif Ymchwilydd RDCS a'r Ganolfan Treialon Ymchwil

Rhan bwysig o'n cylch gwaith yw ceisio cynyddu gallu ymchwil, gan gynnwys cefnogi ymchwilwyr y GIG a gofal cymdeithasol sy'n newydd i rôl ymchwilydd arweiniol, rôl sy'n cael ei galw'n Brif Ymchwilydd. Gall mynd o fod yn rhan o dîm ymchwil i arwain yr astudiaeth fod yn gam mawr i fyny ac, felly, roeddem am ddarganfod beth y mae ar Brif Ymchwilwyr newydd ei angen.

Hyd yn hyn yn y prosiect hwn ynghylch Prif Ymchwilwyr, rydym wedi edrych ar adnoddau cyfredol e.e. gwefannau a hyfforddiant yn ogystal â chanllawiau a phapurau academiaidd i nodi'r elfennau allweddol, ac wedi cynnal arolwg o staff swyddfa ymchwil y GIG a CTU yng Nghymru i gael eu barn ar anghenion Prif Ymchwilwyr newydd. Ein camau nesaf fydd cyfwrdd â Phrif Ymchwilwyr ag ystod o brofiad, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio gyda'r Ganolfan Treialon Ymchwil a hefyd y rhai nad ydynt wedi gweithio gydag uned dreialon, i sicrhau ein bod yn cael barn a phrofiad eang. Pan fyddwn wedi syntheseiddio'r wybodaeth hon, byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Ganolfan Treialon Ymchwil i lunio cynnig pecyn hyfforddiant a chefnogaeth yn seiliedig ar ganfyddiadau.

Astudiaethau Achos

Staff y GIG sy'n taclo Covid-19 yn rhoi cynnig ar realiti rhithwir (VR) i geisio lleihau straen a gorbryder



Am y tro cyntaf, mae staff y GIG sy'n taclo Covid-19 wedi defnyddio realiti rhithwir i helpu i gefnogi eu hiechyd meddwl a'u lles. Cafodd 21 aelod

staff yn gweithio mewn unedau gofal dwys yn ysbytai Brenhinol Morgannwg a'r Tywysog Siarl fynediad at glustffon VR untro am bythefnos i werthuso a oedd yn declyn defnyddiol i helpu gyda straen a gorbryder.

Dyweddodd ymchwilyr o'r Ganolfan Treialon Ymchwil, a oedd wedi gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Rescape Innovation, sy'n defnyddio VR i gefnogi adferiad a gwellhad cleifion, bod yr ymateb wedi bod yn gadarnhaol, ond bod angen astudiaeth ar raddfa ehangach.

Dyweddodd y prif awdur Dr Kim Smallman, Ymgynghorydd Gwasanaeth Dylunio a Chynnal Ymchwil a Chydymaith Ymchwil yn y Ganolfan Treialon Ymchwil: "Daeth yr effaith ar iechyd meddwl a lles gweithwyr gofal iechyd rheng flaen, a'r angen i gynnig cefnogaeth emosiynol

i'r rheiny sy'n gweithio mewn amgylchiadau eithriadol a chythryblus, yn amlwg iawn ar ddechrau'r pandemig. "Fe wnaethom benderfynu gwerthuso'r defnydd o realiti rhithwir i weld a allai fod yn declyn defnyddiol i staff. Mae'r canlyniadau wedi bod yn hynod bositif.

Dyweddodd staff oedd yn defnyddio VR eu bod wedi mwynhau'r profiad, a'i fod wedi'u helpu i ymlacio. Dywedon nhw hefyd ei fod wedi'u helpu i leihau teimladau straen a gorbryder.

Dyweddodd cyd-awdur y gwerthusiad Dr Michelle Smalley, seicolegydd clinigol sy'n gweithio yn unedau gofal dwys ysbytai Brenhinol Morgannwg a'r Tywysog Siarl: "Mae bod yn seicolegydd clinigol yn ystod adegau digynsail wedi gofyn am fesurau digynsail i helpu i gefnogi staff.

"O'r eiliad y gwisgais y clustffonau, sylweddolais eu potensial i helpu gyda gorbryder a straen - ond rhaid i ni fod â sail dystiolaeth o ran dull. Mae canlyniadau'r gwerthusiad gwasanaeth hwn yn gam pwysig o ran adnabod dull hunangymorth at les sy'n effeithiol ac yn hawdd ei ddefnyddio.



Datblygu syniadau ymchwil

Mae Dave Bosanquet yn Llawfeddyg Fasgwlaidd Ymgynghorol ac yn Uwch Ddarlithydd Anrhydeddus sy'n gweithio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Cefndir

Rhaid imi fynd yn ôl i 2015 i'm rhyngweithio cyntaf gyda Gwasanaeth Dylunio a Chynnal Ymchwil (RDCS) De-ddwyrain Cymru. Cyn hyn, roeddwn wedi cwblhau MD ym maes gwyddorau sylfaenol iacháu clwyfau, ac roedd gen i rywfaint o brofiad gyda cheisiadau grant, ond doedd gen i ddim profiad blaenorol o redeg syniad o'r dechrau a gwneud cais am arian cystadleuol.

Roeddwn yn gofrestrydd ar y pryd, ac roedd ymgynghorydd yn gwneud gwaith ymchwil a minnau wedi trafod y posibilrwydd o edrych ar werthuso techneg ar gyfer lleihau poen ar ôl torri darn o goes i ffwrdd – tiwb bach (cathetr) wedi'i osod wrth ymyl pen y prif nerf ar adeg y llawdriniaeth, gyda thrwythiad parhaus o anesthetig lleol drwyddo am 5 niwrnod ar ôl y llawdriniaeth.

Gwahaniaeth yn ymarferol

Cafodd yr ysgogiad ei yrru'n rhannol gan y gwahaniaeth mewn ymarfer a welwyd mewn gwahanol ysbytai yng Nghymru. Gwnaethom edrych ar y data cyfredol a oedd ar gael a chanfod mai dim ond data o ansawdd gwael oedd ar gael i lywio ymarfer – felly nid oedd yn syndod gweld gwahanol ddulliau mewn gwahanol unedau. Fodd bynnag, mae lleddfu poen ar adeg torri'r aelod o'r corff yn hanfodol. Mae hwn yn gyfnod pwysig sy'n effeithio ar ba mor dda y mae pobl yn gwella ar ôl cael llawdriniaeth a gallai ddylanwadu ar faint mae pobl yn ei ddiodeff gyda phoen am gyfnodau hir yn eu rhithaelodau.

Cyswllt cyntaf

Cysylltais â'r Ganolfan Treialon Ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd i ddechrau, a'm cyfeiriodd at eu tîm RDCS: tîm o ystadegwyr, ymchwilwyr ansoddol a rheolwyr treialon profiadol sydd wedi'u hymgorffori yn yr uned treialon clinigol cofrestredig: mae ganddynt fynediad at dros 160 o weithwyr proffesiynol o fewn y Ganolfan Treialon Ymchwil.

Penodi

Trefnais apwyntiad ac es i'w gweld gyda fy nata. Roeddwn yn ansicr beth i'w ddisgwyl. Yn fy nghyfarfod cyntaf cyflwynais y rhesymeg, ein hadolygiad systematig cefndirol, a chynnig eang ar

gyfer gwerthusiad. Roedd yr ymgynghorydd yn rhagorol a chynigodd awgrymiadau cyffredinol ar unwaith.

Cyfarfodydd ymchwil

Dechreuon ni gynnal cyfarfodydd ymchwil yn syth, gydag aelodau RDCS, y tîm llawfeddygol, cynrychiolwyr cleifion ac arbenigwyr eraill. Fe wnaeth elusen trychiadau (Douglas Bader Foundation) ein cefnogi gydag arian sbarduno, a oedd yn ddefnyddiol wrth ddangos i bobl bod hyn yn cael ei ystyried yn bwysig ymhlith y gymuned trychiadau.

Datblygu syniad ymchwil

Llwyddodd RDCS i ychwanegu mwy o fanylion at y syniad ymchwil, a'i gael yn barod i ni ei gyflwyno i'r Uned Treialon Clinigol (CTU) i'w fabwysiadu ar ei portffolio. Roedd hwn yn gam allweddol gan ei fod yn datgloi eu cefnogaeth i'r gwaith ac yn cynnig cyllid cystadleuol. Roeddwn wrth fy modd pan wnaethon nhw ein mabwysiadu.

Gwnaethom ni gais am grant Ymchwil er Budd Cleifion a'r Cyhoedd a ddyfarnir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Gweithiodd RDCS a'r Ganolfan Treialon Ymchwil ochr yn ochr a chyflwynon ni gais gyda'n gilydd. Llwyddon ni i gael ein hariannu, a lanswyd y treial dichonoldeb (o'r enw PLACEMENT) yn 2018. Gwnaethom ni recriwtio ein targed o gleifion o flaen amser, a chyhoeddi ein canlyniadau yn 2019.

Budd cefnogaeth ymgynghorwyr

Mae ymchwil yn rhoi llawer o foddhad, ac o ystyried bod diffyg ymchwil o ansawdd uchel ym maes trychiadau, credaf fod gan PLACEMENT y potensial i wella canlyniadau'n aruthrol i gleifion sy'n cael trychiadau. Fodd bynnag, mae'n codi heriau. Y mwyaf o bosibl yw canlyniad deuaidd ceisiadau am gyllid. Gall cymaint ddibynnu ar ganlyniadau'r bidiau hyn, a gall y gwahaniaeth yn y llwyth gwaith rhwng canlyniad cadarnhaol a negyddol fod yn fawr iawn. Oherwydd ansicrwydd o'r fath, mae cynllunio at y dyfodol yn heriol, a dyna pam mae cael tîm ymroddedig a phrofiadol fel yr RDCS i ymgynghori ag ef - mewn uned treialon clinigol cofrestredig - yn amhrisiadwy.

Casgliad

Fel Canolfan, rydym wedi bod yn flaenllaw yn ymateb y brechlyn Covid-19 ac rydym yn hynod falch o'r ffordd y mae ein holl staff wedi addasu i'r ffyrdd newydd o weithio a orfododd pandemig byd-eang arnom.

Er gwaethaf yr holl heriau, mae ein hymchwil wedi mynd o nerth i nerth ac mae ein gallu i weithio ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol wedi ehangu. Fel yr amlygwyd yn yr adroddiad hwn, rydym wedi cymryd rhan weithredol mewn datblygu astudiaethau a ariennir trwy Covid, wedi agor sawl astudiaeth fawr ac mae ystod o astudiaethau parhaus wedi adrodd ar eu canlyniadau. Hefyd, rydym wedi parhau i gynyddu nifer y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig a chymrodorion sy'n gweithio ochr yn ochr â'n treialon a'n hastudiaethau.

Mae ein mentrau gwyrdd sy'n cyd-fynd â'n nod effeithlonrwydd mewn ymchwil bellach wedi'u gwreiddio'n llawn. Mae maint a dylanwad ein Canolfan Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu â Nhw wedi tyfu ac mae ein ffocws ar ymgysylltu bellach yn ymestyn i gynwysoldeb mewn ymchwil.

Gobeithio'ch bod chi wedi mwynhau darllen am rai o'n llwyddiannau a'n harloesiadau, a'r ystod eang o weithgareddau y mae ein hymchwilwyr a'n hymchwilwyr wedi bod yn rhan ohonynt dros y 12 mis diwethaf heriol iawn.




Edrych tuag at y dyfodol

Mae digwyddiadau lleol a byd-eang y llynedd yn pwysleisio anhawster edrych ymlaen gyda sicrwydd llwyr. Fodd bynnag, mae'r profiad a'r galwadau y mae'r pandemig wedi'u gosod ar gymdeithas ond wedi atgyfnerthu ein nodau tymor hir. Mewn rhai achosion, mae cyflymder yn erbyn ein targedau wedi cynyddu naill ai o reidrwydd neu gyfle. Disgwylwn weld cynnydd cyflym tebyg mewn meysydd gweithredol allweddol megis cynyddu effeithlonrwydd wrth gynnal treialon, defnydd mwy fyth o ddata gweinyddol a chyrraedd ein nodau ein hunain ar gyfer gweithio gwydd.

Fel uned dreialon, rydym ni'n disgwyl chwarae rhan hanfodol wrth weithio gydag ymchwilwyr i gefnogi'r adferiad yn dilyn y pandemig yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol. Mae nifer ac ansawdd y ceisiadau newydd am fabwysyadau astudiaethau a gefnogol dros y 12 mis diwethaf yn arwydd o'n rhaglen waith sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Er y bydd rhywfaint o ffocws ar adfer yn dilyn y pandemig, mae angen yn yr un modd i ni gefnogi anghenion iechyd a gofal cymdeithasol parhaus y cyhoedd yng Nghymru, ac i'r ddau wneud hynny mewn modd cynhwysol.

Mae symud i fodel gweithio ôl-bandemig yn debygol o gyfuno buddion gweithio yn y swyddfa a gweithio o bell. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi creu cydweithrediadau newydd gydag ymchwilwyr ar draws y seilwaith ymchwil glinigol yng Nghymru a thu hwnt. Rydym yn bwriadu i hyn barhau. Mae gweithio o bell wedi galluogi cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd nad oeddent efallai wedi gallu ymgysylltu o'r blaen. Wrth edrych tua'r dyfodol, gall model gweithio cyfunol creadigol ddiwallu anghenion sbectrwm ehangach o'r cyhoedd a gwella ein huchelgeisiau ar gyfer ymchwil gynhwysol.

Mewn cyfnod o amodau economaidd a chymdeithasol dyrys, ein rôl fel uned dreialon yw gwneud y mwyaf o werth ymchwil a buddsoddiad cyhoeddus i'r Ganolfan, i gynnig budd parhaus i drigolion Cymru. Os yw sicrwydd ynghylch y dyfodol yn teimlo ychydig yn anoddach y dyddiau hyn, mae ein hyder yn ein staff a'n cydweithwyr i gyflawni yn unol â'n agenda ymchwil uchelgeisiol wedi tyfu trwy ein profiadau dros y flwyddyn ddiwethaf.



Diolch yn fawr

Hoffai'r Ganolfan Treialon Ymchwil ddiolch i holl aelodau'r cyhoedd a chyfranogwyr yr astudiaethau a roddodd o'u hamser i gymryd rhan yn ein hastudiaethau o'u gwirfodd ac â haelioni mawr, er mwyn helpu i wella canlyniadau iechyd i genhedloedd y dyfodol. Ein gweledigaeth yw creu diwylliant sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn i ni wybod beth sy'n gweithio a beth nad yw'n gweithio. Mae hyn yn amhosibl heb eu cyfraniad a'u cefnogaeth.

Diolch yn fawr i'n holl Bartneriaid Ymchwil, sy'n rhoi o'u hamser i gymryd rhan mewn grwpiau rheoli astudiaethau, pwyllgorau llywio, ac sy'n ymwneud â chyflwyno a chymryd rhan mewn gwaith ymchwil. Rydych yn llywio cwestiynau ymchwil, gwaith llunio astudiaethau, cynllunio, rheoli a llunio adroddiadau, sicrhau bod deunyddiau astudio yn ddefnyddiol i'r cyhoedd – ac yn y pen draw, yn helpu ein holl astudiaethau i gael eu cwblhau a'u cyhoeddi'n llwyddiannus.

Diolch yn arbennig eleni i'n staff a'n myfyrwyr anhygoel sydd wedi llwyddo i gadw portffolio helaeth o ymchwil ar waith, gan ailosod prosesau er mwyn lleihau'r baich ar y GIG a chyflwyno ymchwil hanfodol i COVID ar frys wrth weithio gartref, gofalu am eu teuluoedd a goroesi ansicrwydd y flwyddyn ddiwethaf.

Wrth baratoi'r adroddiad hwn, rydym yn diolch i'n cynrychiolwyr o'r Ganolfan Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd (PI&E), Sue Campbell a Sarah Peddle.



Sue Campbell



Sarah Peddle

Cysylltu â ni

Mae'r Ganolfan Treialon Ymchwil yn fodlon ystyried unrhyw astudiaeth wedi'i dylunio'n dda neu syniad i'w dreialu, hyd yn oed os ydynt y tu hwnt i'w meysydd ymchwil presennol. Am ragor o wybodaeth am weithio gyda'n tîm ymchwil neu gael gwybod am y newyddion a'r digwyddiadau diweddaraf:

E-bost: ctr@caerdydd.ac.uk

Rhif ffôn: **029 2068 7620**

Twitter: [@CTRCardiffUni](https://twitter.com/CTRCardiffUni)

Blog: blogs.cardiff.ac.uk/centre-for-trials-research

Gwefan: www.caerdydd.ac.uk/centre-for-trials-research

